



Cyfarfod

PWYLLGOR PENSIYNAU ARBENNIG

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD GWENER, 29AIN MEDI, 2017

Lleoliad

Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 21 Medi 2017)

PWYLLGOR PENSIYNAU

AELODAETH (7)

Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Aled W Jones
Peter Read

Simon Glyn

Peredur Jenkins

Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes

John Pughe Roberts

Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd

Stephen W. Churchman

Aelodau Cyfetholedig

Cynghorydd David Cowans
Cynghorydd John Griffith

Cyngor Bwrdeistrefol Conwy
Cyngor Mon

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 12.6.17 fel rhai cywir

5. MARKETS IN FINANCIAL INSTRUMENTS DIRECTIVE II (MIFID II) 7 - 28

I'r pwyllgor ethol am statws cleient proffesiynol a cymeradwyo cais gyda'r holl sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau gellir parhau i weithredu strategaeth buddsoddi effeithiol

6. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2017 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL 29 - 77

Cyflwyno er gwybodaeth –

- Datganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn ôl-Archwiliad;
- Adroddiad 'ISA260' Deloitte.

7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2017/18 - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 78 - 82

Ystyried adroddiad Pennaeth Cyllid

PWYLLGOR PENSIYNAU 12.06.2017

Yn bresennol: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman (Cadeirydd), Simon Glyn, John Griffith (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones a John Pughe Roberts

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eraill a wahoddwyd: Huw Trainor (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Stephen Churchman yn Gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.

2. ETHOL IS GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Peter Read.
Nodwyd nad oedd cynrychiolaeth Cyngor Bwrdeistref Conwy wedi ei gadarnhau.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eglurwyd nad oedd angen i bawb ddatgan buddiant fel rhai oedd yn derbyn / cyfrannu at y Gronfa Bensiwn

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 16 o Fawrth fel rhai cywir.

7. PWL BUDDSODDI CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad gan Y Pennaeth Cyllid yn rhoi diweddariad i'r Aelodau am ddatblygiad Pŵl Buddsoddi Cymru fydd yn gerbyd i fuddsoddi asedau'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Rhoddwyd cyflwyniad byr ar gefndir datblygu'r Pŵl ac yng nghyd-destun trefniadau llywodraethu, amlygwyd y byddai'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn cyfarfod yn ffurfiol ddiwedd Mehefin. O ran cynrychiolaeth Cronfa Gwynedd, argymhellwyd yr angen i gynllunio cynrychiolaeth briodol ar y Cydbwyllgor, ac awgrymwyd mai Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau fuasai'r cynrychiolydd tebygol, ynghyd a'r Pennaeth Cyllid. Yn absenoldeb y Cadeirydd, awgrymwyd y byddai'r Is-gadeirydd yn mynychu.

Eglurwyd mai cam cyntaf y Cydbwyllgor fydd derbyn adroddiadau ar y broses caffael ar gyfer penodi Gweithredwr ar gyfer y Cerbyd Buddsoddiadau Cyfunol, gan argymhell apwyntio'r cynigydd gorau fyddai'n cyrraedd gofynion y fanyleb. Ategwyd bod 8 Gweithredwr wedi ymateb i'r Holiadur Dethol, gyda 6 ohonynt yn cael gwahoddiad i dendro. Er mai'r bwriad yw dewis Gweithredwr yn ystod Haf 2017, ni fydd yn gweithredu tan Ebrill 2018.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pherthynas y Pwyllgor Pensiynau gyda'r Gweithredwr yng nghyd-destun cynnal trafodaethau a chyfathrebu, nodwyd y byddai angen efallai, i'r Gweithredwr gynnig manylion o'u trefniadau ymgysylltu a chyfathrebu i'r wyth gronfa. Mewn ymateb i'r sylw awgrymwyd i'r Cadeirydd, yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor, cynnig y mater yma fel eitem benodol ar raglen y Cydbwyllgor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau cosb torri cytundeb gyda rheolwyr mandadau presennol Cronfa Gwynedd, nodwyd y byddai costau trosiannol posib. Ategwyd bod darn o waith ymchwil ar y gweill i ystyried rhannu costau ymysg yr wyth gronfa (ar sail gwarchodaeth).

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad cynnydd.

PENDERFYNWYD mai Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau fyddai yn cynrychioli Gwynedd ar y Cydbwyllgor Llywodraethu, gyda'r Is-gadeirydd yn mynychu yn ei absenoldeb.

8. CYNADLEDDAU PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r aelodau enwebu unigolion i fynychu cynadleddau ar ran Cronfa Gwynedd. Amlygwyd bod y Pwyllgor yn arfer anfon cynrychiolwyr ar sail rota i nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn, er mwyn cynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth aelodau a swyddogion.

PENDERFYNWYD ar yr enwebiadau canlynol ar gyfer cynadleddau 2017

- Cynhadledd Ymddiriedolwyr CPLIL, Bournemouth – Cynghorydd Aled Wyn Jones, Cynghorydd Peter Read (Cynghorydd Seimon Glyn fel eilydd i'r Cynghorydd Peter Read)
- Cynhadledd Copa Buddsoddi LGC, Casnewydd – Cynghorydd Peredur Jenkins, Cynghorydd John Pughe Roberts (Cynghorydd John Brynmor Hughes fel eilydd)
- Cynhadledd Flynyddol LAPFF, Bournemouth – Cynghorydd Stephen Churchman

9. DYDDIADAU CYFARFODYDD PENSIYNAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn rhannu dyddiadau cyfarfodydd Pensiynau er mwyn galluogi i'r Aelodau gynllunio'n briodol. Amlygwyd, er mai'r Pwyllgor Pensiynau yw'r corff sydd yn gwneud y penderfyniadau ar gyfer y Gronfa Bensiwn bod y Bwrdd Pensiwn, Y Panel Buddsoddi a'r Cydbwyllgor Pŵl Cymru yn cyfrannu at drefniadau megis, rhoi trosolwg ar reolaeth a gweithrediad y Gronfa Bensiwn, craffu perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn a llywodraethu pŵlio buddsoddiadau dros yr wyth gronfa Gymreig.

Mewn ymateb i'r adroddiad nodwyd bod y wybodaeth yn fuddiol a gofynnwyd i'r aelodau nodi'r dyddiadau yn eu dyddiaduron. Cytunwyd i gylchredeg dyddiadau'r "hyfforddiant sylfaenol i ymddiriedolwyr" ar gyfer aelodau newydd y Pwyllgor, unwaith daw'r wybodaeth i law.

PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben 2:45pm

PWYLLGOR: **Pwyllgor Pensiynau**

DYDDIAD: **29 Medi 2017**

TEITL: ***Markets in Financial Instruments Directive II (MiFID II)***

DIBEN: **Er mwyn i'r pwyllgor ethol am statws cleient proffesiynol a cymderadwyo cais gyda'r holl sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau gellir parhau i weithredu strategaeth buddsoddi effeithiol**

AWDUR: **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid**

1. CYFLWYNIAD

- 1.1** Dan y Ddeddf gyfredol yn y DU, mae awdurdodau lleol yn cael eu categoreiddio yn awtomatig fel cleientiaid 'proffesiynol *per se*' o ran busnesau nad ydynt o fewn sgôp MiFID ac maent yn cael eu categoreiddio fel cleientiaid 'proffesiynol *per se*' o ran busnes o fewn sgôp MiFID os ydynt yn bodloni prawf *Large Undertakings* MiFID. Gall awdurdodau lleol nad ydynt yn bodloni'r prawf *Large Undertakings* ddewis symud i fyny i statws cleient proffesiynol detholus os ydynt yn bodloni 'meini prawf symud i fyny' penodol.
- 1.2** Ar ôl cyflwyniad y *Markets in Financial Instrument Directive 2014/65* ("MiFID II") o 3 Ionawr 2018, ni fydd modd i gwmnïau gategoreiddio awdurdod cyhoeddus lleol neu fwrdeistref nad ydyw (yn y naill achos) yn rheoli dyled gyhoeddus ("awdurdod lleol") fel 'cleient proffesiynol *per se*' neu wrthbarti cymwys detholus (ECP) ar gyfer busnesau o fewn sgôp MiFID neu rai sydd ddim o fewn sgôp MiFID. Yn hytrach, rhaid dosbarthu pob awdurdod lleol fel "cleientiaid manwerthu" oni bai bod cwmnïau yn eu symud i fyny i statws 'cleient proffesiynol detholus'.
- 1.3** Yn ogystal, mae'r FCA wedi defnyddio ei ddisgresiwn i fabwysiadu meini prawf symud i fyny euraid er dibenion y meini prawf symud i fyny meintiol, sydd angen i gleientiaid awdurdod lleol eu bodloni er mwyn i gwmnïau eu hailddosbarthu fel cleient proffesiynol detholus.

2. Dethol ar gyfer statws cleient proffesiynol

- 2.1** Mae MiFID II yn caniatáu i gleientiaid manwerthu sy'n bodloni amodau penodol ethol i gael eu trin fel cleientiaid proffesiynol ('symud i fyny'). Mae'n rhaid i'r cleient fodloni dau brawf wrth gael ei asesu gan y sefydliad ariannol: y prawf meintiol a'r prawf ansoddol.
- 2.2** Mae Bwrdd Cynghori'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (SAB) a'r LGA, ynghyd â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) a'r Investment Association (IA) wedi llobio'r FCA yn llwyddiannus er mwyn gwneud y prawf yn fwy priodol i sefyllfa unigryw awdurdodau lleol.

- 2.3** Mae'r profion newydd yn cydnabod statws awdurdodau gweinyddu CPLIL fel rhywbeth sy'n gwneud iddynt 'basio' y prawf meintiol, tra bod modd gwneud y prawf ansoddol ar yr awdurdod ar y cyd, yn hytrach nag fel unigolyn. Ceir crynodeb o ddatganiad polisi'r FCA, a dyfyniadau ohono, sy'n nodi'r profion newydd hyn yn **ATODIAD 1**
- 2.4** Rhaid i'r detholiad i statws proffesiynol gael ei gwblhau â phob sefydliad ariannol cyn i'r statws newid ar 3 Ionawr 2018. Os na fydd awdurdodau lleol yn llwyddo i wneud hynny, gallai arwain at y sefydliad ariannol yn gorfod cymryd 'camau priodol' a gallai hyn gynnwys terfynu'r berthynas a hynny ar risg ariannol sylweddol i'r awdurdod.
- 2.5** Mae'r SAB a'r LGA wedi gweithio â chyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant, gan gynnwys yr IA, y British Venture Capital Association (BVCA) ac eraill i ddatblygu proses symud i fyny safonol gyda thempledi llythyrau a gwybodaeth. Dylai'r broses hon arwain at ddefnyddio dull cyson o asesu ac atal awdurdodau rhag gorfod cyflwyno amrywiaeth o wybodaeth mewn gwahanol ffurfiau.
- 2.6** Gweler siart llif o'r broses yn **ATODIAD 2** ac mae templedi'r llythyr a'r wybodaeth wedi'u hatodi yn **ATODIADAU 3 a 4**.
- 2.7** Gellir gwneud ceisiadau o ran yr holl wasanaethau a gynigir gan y sefydliad (hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd), neu wasanaeth penodol yn unig. Efallai y bydd awdurdod lleol yn dymuno gwneud yr olaf pan fo'r sefydliad yn cynnig amrediad eang o offerynnau cymhleth nad ydyw'r awdurdod yn eu defnyddio ar hyn o bryd a ble nad oes bwriad i ddefnyddio'r sefydliad eto unwaith y bydd y berthynas gyfredol wedi dod i ben, er enghraifft, os cyflawnir yr ymarferiad caffael nesaf drwy bwl y CPLIL. Argymhellir y dylai swyddogion benderfynu ar y sail fwyaf priodol ar gyfer y cais, naill ai o ran gwasanaeth llawn neu wasanaeth sengl.
- 2.8** Ni fydd gofyn i awdurdodau adnewyddu'r detholiad yn rheolaidd, ond bydd angen iddynt adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y broses symud i fyny a hysbysu pob sefydliad ynghylch unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a allai effeithio ar eu statws, er enghraifft, os bydd aelodaeth y pwyllgor yn newid yn sylweddol gan arwain at golli profiad, neu os bydd y berthynas gydag ymgynghorydd buddsoddi'r awdurdod yn cael ei therfynu.

3. PŴL BUDDSODDI PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

- 3.1** Bydd pŵl CPLIL yn fuddsoddwyr proffesiynol eu hunain yn barod felly ni fydd angen iddynt symud i fyny gyda'r sefydliadau allanol maent yn eu dewis. Fodd bynnag, bydd angen i awdurdodau lleol symud i fyny gyda'u pŵl CPLIL er mwyn cael mynediad at yr amrediad llawn o wasanaethau ac is-gronfeydd sydd ar gael.
- 3.2** Mewn rhai amgylchiadau, yn benodol pan fo'r pŵl yn cynnig mynediad i strwythurau'r gronfa megis yr ACS yn unig, gallai'r pŵl ddefnyddio'r darpariaethau 'harbwr diogel' sy'n deillio o awdurdodau lleol yn parhau i gael

eu henwi fel buddsoddwyr proffesiynol yn y *Financial Promotion Order* (yr "FPO") neu yn y *Financial Services and Markets Act 2000 (Promotion of Collective Investment Schemes) (Exemptions) Order* (y "PCISO"). Byddai'r darpariaethau hyn yn galluogi hyrwyddo a gwerthiant posib yr unedau mewn strwythurau cronfa i awdurdodau lleol fel buddsoddwyr manwerthu. Byddai angen i bob sefydliad ariannol mae'r awdurdod yn eu defnyddio y tu allan i'r pŵl, boed yn gyfredol neu newydd, ei ddethol i statws proffesiynol, ynghyd ag adolygu pob detholiad yn barhaus. Os bydd pob pryniant newydd yn cael ei wneud drwy strwythurau cronfa yn y pŵl yna ni fydd angen unrhyw etholiadau newydd, dim ond adolygiad parhaus o'r detholiadau a wnaed gyda'r pŵl ac unrhyw sefydliadau allanol a etifeddwyd, a byddai'r nifer ohonynt yn lleihau wrth i asedau ddod i ben a bod unrhyw arian parod yn cael ei drosglwyddo.

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Pensiynau:

- i) Yn nodi'r effaith bosib ar y strategaeth fuddsoddi o ddod yn gleient manwerthu o 3 Ionawr 2018 ymlaen.**
- ii) Yn cymeradwyo bwrw ati yn syth i wneud cais am statws cleient proffesiynol detholus gyda'r holl sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau y gall barhau i weithredu strategaeth fuddsoddi effeithiol.**
- iii) Wrth ymgeisio am statws cleient proffesiynol, bod y pwyllgor yn cydnabod ac yn cymeradwyo ei fod yn ildio'r gwarchodaethau sydd ar gael i gleientiaid manwerthu.**
- iv) Yn dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y caniatâd perthnasol er dibenion cwblhau'r ceisiadau a phenderfynu ar y seiliau priodol ar gyfer y cais hwnnw.**

Rhybuddion - colli gwarchodaeth fel Cleient Proffesiynol

Mae gan Gleientiaid Proffesiynol lai o warchodaeth dan gyfundrefnau rheoleiddio'r DU a'r UE na'r hyn sydd gan Gleientiaid Manwerthu. Er gwybodaeth yn unig, mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'r gwarchodaeth y byddwch yn ei cholli os ydych yn gwneud cais i fod yn Gleient Proffesiynol a chytuno i gael eich trin felly.

1. Cyfathrebu gyda chleientiaid, gan gynnwys cynigion ariannol

Fel Cleient Proffesiynol, gall pa mor syml a pha mor aml mae'r cwmni'n cyfathrebu â chi fod yn wahanol i'r ffordd y bydd yn cyfathrebu fel Cleient Manwerthu. Fodd bynnag, byddant yn sicrhau bod ein cyfathrebu yn parhau'n deg, yn glir ac nad ydyw'n gamarweiniol.

2. Gwybodaeth am y cwmni, ei wasanaethau a chydabyddiaeth ariannol

Mae'r math o wybodaeth mae'r cwmni yn ei roi i Gleientiaid Manwerthu amdano ei hun, ei wasanaethau a'i gynnyrch a sut mae'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol, yn wahanol i'r hyn mae'r cwmni yn ei ddarparu i Gleientiaid Proffesiynol. Yn benodol,

(A) Mae'n rhaid i'r cwmni ddarparu gwybodaeth ynghylch y meysydd hyn i bob cleient, ond gall manylder, ffurf ac amseriad y ddarpariaeth fod yn llai penodol i gleientiaid nad ydynt yn Gleientiaid Manwerthu; ac

(B) mae cyfyngiadau penodol ar y strwythur cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer staff sy'n darparu gwasanaethau i Gleientiaid Manwerthu nad ydyw o bosib yn berthnasol o ran staff sy'n darparu gwasanaethau i Gleientiaid Proffesiynol;

(C) efallai na fydd y wybodaeth sy'n cael ei ddarparu gan y cwmni mewn perthynas â chost a ffioedd am ei wasanaethau ac/neu gynnyrch mor gynhwysfawr i Gleientiaid Proffesiynol ac y byddai i Gleientiaid Manwerthu, er enghraifft, mae gofyn arnynt pan fônt yn cynnig pecyn o gynnyrch a gwasanaethau i roi gwybodaeth ychwanegol i Gleientiaid Manwerthu ynghylch y risgiau a'r elfennau sy'n llunio'r pecyn hwnnw; ac

(D) wrth ymdrin ag archebion ar ran Cleientiaid Manwerthu, mae'n rhaid i'r cwmni eu hysbysu am unrhyw anawsterau perthnasol wrth ymdrin â'r archebion; efallai na fydd y rheidrwydd hwn yn berthnasol o ran Cleientiaid Proffesiynol.

3. Addasrwydd

Wrth ddarparu cyngor neu wrth ddarparu gwasanaethau rheoli disgresiwn, wrth asesu addasrwydd ar gyfer Cleientiaid Proffesiynol, mae gan y cwmni hawl i dybio o ran y cynnyrch, y trafodion a'r gwasanaethau yr ydych wedi cael eich dosbarthu ar eu cyfer, bod gennych y lefel angenrheidiol o brofiad a gwybodaeth i ddeall y risgiau sydd ynghlwm â rheoli'ch buddsoddiadau. Bydd y cwmni yn asesu'r wybodaeth hon ar wahân i Gleientiaid Manwerthu a byddai angen darparu adroddiad addasrwydd i Gleientiaid Manwerthu.

4. Priodoldeb

O ran trafodion pan nad yw'r cwmni yn darparu cyngor ar fuddsoddiadau neu wasanaethau rheoli disgresiwn (megis gweithredu yn unig "*execution-only trade*"), efallai y bydd angen asesu p'un a yw'r trafodyn yn briodol. O ran Cleient Manwerthu, mae prawf penodol ar gael i ganfod p'un a oes gan y cleient y lefel ofynnol o wybodaeth a phrofiad i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â'r trafodyn perthnasol. Fodd bynnag, mewn perthynas â Chleient Proffesiynol, mae gan y cwmni hawl i dybio bod ganddynt y lefel ofynnol o brofiad, gwybodaeth ac arbenigedd i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â thrafodion o ran cynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu dosbarthu fel rhai i Gleientiaid Proffesiynol.

5. Delio

Gellir ystyried amrediad o ffactorau ar gyfer Cleientiaid Proffesiynol er mwyn cyflawni'r gweithrediad gorau (mae'r pris yn ffactor bwysig ond gall pwysigrwydd ffactorau eraill gwahanol, megis cyflymder, costau a ffioedd, amrywio). I'r gwrthwyneb, wrth ymgymryd â thrafodion ar gyfer Cleientiaid Manwerthu, y ffactor bwysicaf fydd yr ystyriaeth gyflawn, o ran pris yr offeryn ariannol a chostau'r gweithrediad.

6. Rhoi gwybodaeth i gleientiaid

O ran trafodion pan nad yw'r cwmni yn darparu gwasanaethau rheoli disgresiwn (megis trafodion gweithredu yn unig "execution-only"), mae'r amserlen ar gyfer cadarnhau bod archeb wedi'i gweithredu yn fwy manwl ar gyfer archebion Cleientiaid Manwerthu na archebion Cleientiaid Proffesiynol.

7. Cleientiaid yn adrodd

Bydd cwmnïau buddsoddi sydd â chyfrif cleient manwerthu sy'n cynnwys offerynnau ariannol neu drafodion ymrwymadau wrth gefn yn hysbysu'r Cleient Manwerthu, pan fo gwerth cychwynnol pob offeryn yn dad-brisio 10% ac wedi hynny wrth luosrifau o 10%. Nid yw'r adroddiadau hyn yn gorfod cael eu cynhyrchu ar gyfer Cleientiaid Proffesiynol.

8. Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol

Efallai na fydd y Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol ar gael i chi fel Cleient Proffesiynol.

9. Iawndal Buddsoddwyr

Nid yw cymhwyster am iawndal o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol yn ddibynnol ar eich categori ond ar gyfansoddiad eich sefydliad. O ganlyniad, yn ddibynnol ar eich cyfansoddiad, efallai na fydd gennych fynediad at y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol.

10. Eithrio atebolrwydd

Mae rheolau'r FCA yn rhoi cyfyngiad mwy caeth ar allu'r cwmni i eithrio neu gyfyngu ar unrhyw ddyletswydd atebolrwydd sydd gan y cwmni tuag at Gleientiaid Manwerthu o gymharu â Chleientiaid Proffesiynol.

11. Ymrwymiad Masnachu

O ran cyfranddaliadau sy'n cael eu masnachu ar farchnad wedi'i rheoleiddio neu sy'n cael eu masnachu mewn lleoliad masnachu, gallai'r cwmni, o ran buddsoddiadau'r Cleientiaid Manwerthu, drefnu i fasnach o'r fath gael ei wneud yn unig ar farchnad wedi'i rheoleiddio, cyfleuster masnachu amlochrog, *systemic internaliser* neu leoliad masnachu gwlad trydydd byd (*third-country trade location*). Mae hwn yn gyfyngiad na fydd yn berthnasol, o bosib, o ran masnachu a weir ar ran Cleientiaid Proffesiynol.

12. Trosglwyddo trefniadau sicrwydd ariannol

Fel Cleient Proffesiynol, gallai'r cwmni ddirwyn trefniadau i drosglwyddo teitl sicrwydd ariannol gyda chi i ben er dibenion sicrhau neu ddiogelu eich ymrwymadau presennol, yn y dyfodol, gwirioneddol neu bosib, na fyddai'n bosib ar gyfer Cleientiaid Manwerthu.

13. Arian Cleientiaid

Mae'r gofynion dan reolau arian cleientiaid Llawlyfr yr FCA (CASS) yn fwy penodol ac yn rhoi mwy o warchodaeth i Gleientiaid Manwerthu na Chleientiaid Proffesiynol.

Dylid nodi y bydd gennych hawl bob amser i wneud cais am gategoreiddiad cleientiaid gwahanol ac y byddwch yn gyfrifol am hysbysu'r cwmni am unrhyw newid a allai effeithio ar eich categoreiddiad fel Cleient Proffesiynol.

Proses Symud i Fyny i Gleientiaid Awdurdodau Lleol yn y DU

CAMAU	AMSERLEN	CANLLAW
-------	----------	---------

Cam Paratoadol Cwblhau'r broses symud i fyny safonol yn ffurfiol	Diwedd Gorffennaf 2017	<ul style="list-style-type: none"> (i) Cwblhau'r holiadur safonol meintiol ac ansoddol i'r diwydiant; (ii) Cwblhau'r cais a llythyr gan yr Awdurdod Lleol sy'n rhoi caniatâd i gael ei symud i fyny; a (iii) Cwblhau'r llythyr ymateb gan gwmnïau buddsoddi sy'n cytuno i'r symud i fyny.
--	-------------------------------	--

Cam 1 Awdurdodau Lleol i gwblhau'r llythyr a'r holiadur a'u hanfon at y cwmnïau buddsoddi	Awst – Medi 2017	<p>Awdurdodau Lleol i gwblhau ac anfon yr hyn a ganlyn i gwmnïau buddsoddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Cais a llythyr gan yr Awdurdod Lleol sy'n rhoi caniatâd i gael ei symud i fyny i statws cleient proffesiynol; a (ii) Holiaduron meintiol ac ansoddol wedi'u cwblhau (er mwyn i gwmnïau buddsoddi fodloni eu hunain bod yr awdurdod lleol yn pasio'r prawf ansoddol).
↓	↓	↓
Cam 2 Cwmnïau Buddsoddi i ddilysu'r wybodaeth a chynnal yr asesiad statws cleient	Medi – Hydref 2017	<p>Cwmnïau buddsoddi i ddilysu'r wybodaeth a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol i bennu p'un a yw'r wybodaeth: (i) yn ddigonol; a (ii) yn briodol.</p> <p>Asesu'r wybodaeth a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol a chadarnhau ei fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) wedi cyflwyno'r cais a'r llythyr caniatâd er mwyn iddo gael ei drin fel cleient proffesiynol; ac (ii) wedi pasio'r prawf meintiol a (ii) y prawf ansoddol. <p>Cofnodi a storio gwybodaeth yr awdurdod lleol a chanlyniadau'r asesiad mewnol.</p>
↓	↓	↓
Cam 3 Anfon y llythyr cadarnhau i'r cleientiaid ALL yn cadarnhau'r statws cleient proffesiynol	Hydref 2017	<p>Os mai Awdurdod Lleol sydd wedi cyflwyno'r cais a'r llythyr caniatâd a'i fod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) y prawf meintiol; ac (ii) y prawf ansoddol, anfon llythyr yn cadarnhau dosbarthiad y cleient fel cleient proffesiynol.
↓	↓	↓
Cam 4 Ail-gategoreiddio'r cleient	3 Ionawr 2018	<p>Unwaith y bydd y camau uchod wedi'u cwblhau, o 3 Ionawr 2018 ymlaen, gall y cwmni barhau i ymdrin â'r awdurdod lleol fel cleient proffesiynol.</p>

Llythyr yn gofyn am gategoreiddio fel cleient proffesiynol detholus

[AR BAPUR PENNAWD [YR AWDURDOD]]

[Enw'r Rheolwr]

[Cyfeiriad y Rheolwr]

[Dyddiad]

Annwyl [●]

Cais i gael ein trin fel buddsoddwr proffesiynol

Ysgrifennaf atoch cyn y gweithreidir y *Markets in Financial Instruments Directive* (2014/65/EU) (MiFID II) yn y DU. Rwyf wedi cael fy awdurdodi gan ENW AWDURDOD (yr "Awdurdod Lleol") i'ch hysbysu, yn ei gapasiti fel awdurdod gweinyddu cynllun pensiwn llywodraeth leol, ei fod yn dymuno cael ei drin fel cleient proffesiynol er dibenion:

- (a) unrhyw a phob gwasanaeth buddsoddi mae'n ei dderbyn gennych chi (y "Gwasanaethau"); ac/neu
- (b) gynnig i ni, a buddsoddi mewn rhai, neu'r holl gronfeydd a reolir neu a gynghorir arnynt

gennych chi ("Cynigion/Buddsoddiadau'r Gronfa").

Rydym yn deall eich bod angen categoreiddio eich holl gleientiaid fel naill ai gleientiaid proffesiynol neu gleientiaid manwerthu a'ch bod ar hyn o bryd yn categoreiddio'r Awdurdod Lleol fel Cleient Proffesiynol ("Cleient Proffesiynol"). Fodd bynnag, o 3 Ionawr 2018, dan reolau newydd sy'n deillio o MiFID II, bydd angen i chi ail-gategoreiddio'r Awdurdod Lleol fel Cleient Manwerthu ("Cleient Manwerthu") o ran derbyn Gwasanaethau gennych chi ac/neu o ran buddsoddiadau cyfredol y gronfa ac unrhyw Gynigion/Buddsoddiadau'r Gronfa yn y dyfodol, oni bai eich bod yn fodlon y gallwch fel arall ymdrin â'r Awdurdod Lleol fel Cleient Proffesiynol Detholus a symud yr Awdurdod Lleol i fyny i'r statws cleient penodol hwn.

Rwyf yn cadarnhau ac yn cydnabod bod yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol na fydd yn elwa o'r gwarchodaethau a'r hawliau iawndal buddsoddwyr, a nodir mewn mwy o fanylder yn Atodlen 1, drwy gael ei gategoreiddio fel Cleient Proffesiynol. Wrth wneud hynny, rwyf yn cadarnhau bod yr Awdurdod Lleol wedi adolygu ac wedi ystyried colled y gwarchodaethau a'r hawliau hyn yn ofalus iawn, a'i fod, os oedd o'r farn bod hynny'n briodol, wedi cymryd cyngor gan ymgynghorwyr cyfreithiol, ariannol neu eraill.

Dymunaf eich hysbysu bod yr Awdurdod Lleol yn dymuno cael ei gategoreiddio fel Cleient Proffesiynol er dibenion y Gwasanaethau ac/neu Gynigion/Buddsoddiadau'r Gronfa, fel sy'n berthnasol yn ei gapasiti fel awdurdod gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Cyn ail-gategoreiddio'r Awdurdod Lleol, fel Cleient Proffesiynol, deallaf y bydd angen i chi asesu'r Awdurdod Lleol ar rai seiliau meintiol ac ansoddol. I hwyluso'r asesiad hwn, atodaf gopi o'r holiadur sydd wedi'i gwblhau gennym er mwyn i chi ei adolygu a'i ystyried.

Yn amodol ar i chi fod yn rhesymol sicr, o 3 Ionawr 2018, bod yr Awdurdod Lleol yn bodloni'r seiliau meintiol ac ansoddol angenrheidiol ac y gellir ei gategoreiddio fel Cleient Proffesiynol detholus, mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau'r hyn a ganlyn:

(a) ei gais i gael ei gategoreiddio fel Cleient Proffesiynol, yn ei gapasiti fel awdurdod gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mewn perthynas â'r Gwasanaethau ac/neu Gynigion/Buddsoddiadau'r Gronfa.

(b) mae'r holl wybodaeth a gyflwynwyd i chi gennym ni (er mwyn hwyluso eich asesiad o gais yr Awdurdod Lleol i gael ei gategoreiddio fel Cleient Proffesiynol) yn wir, yn gywir ac yn gyflawn.

(c) mae'r Awdurdod Lleol yn deall cynnwys Atodlen 1 sy'n cynnwys crynodebau o'r gwarchodaethau a hawliau iawndal buddsoddwyr, os o gwbl, y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu colli unwaith y bydd yn cael ei gategoreiddio fel Cleient Proffesiynol. Noder y gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod Lleol yn gwbl ymwybodol o ganlyniadau colli gwarchodaethau o'r fath a'i fod yn parhau i ddymuno gwneud cais i gael ei gategoreiddio fel Cleient Proffesiynol o ran y Gwasanaethau ac/neu Gynigion/Buddsoddiadau'r Gronfa.

(d) mae'r Awdurdod Lleol wedi cael digon o amser i ystyried goblygiadau'r categoreiddiad fel Cleient Proffesiynol a'i fod, yn annibynnol, wedi cymryd cyngor cyfreithiol, ariannol neu arall yr oedd o'r farn oedd yn angenrheidiol.

(e) bydd yr Awdurdod Lleol yn eich hysbysu o unrhyw newid a allai effeithio ei categoreiddiad fel Cleient Proffesiynol. Yn ogystal, gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod Lleol yn deall ei gyfrifoldeb i ofyn i chi am lefel uwch o warchodaeth os nad oes modd iddo asesu neu reoli'n briodol y risgiau sydd ynghlwm â'r buddsoddiadau o fewn y mandadau rheoli portffolio yr ydych wedi cael eich penodi i'w rheoli.

(f) Rwyf yn cydnabod bod yr Awdurdod Lleol yn deall y bydd gennych hawl, ar eich disgresiwn llwyr ac heb orfod rhoi unrhyw reswm, ail-gategoreiddio'r cleient fel Cleient Manwerthu neu roi'r gorau i ddarparu'r Gwasanaethau neu fel arall gwblhau unrhyw gynnig cronfa i ni neu ganiatáu i ni fuddsoddi mewn cronfeydd yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y cais hwn, cysylltwch â **[enw]** ar **[rhif ffôn]** neu fel arall gallwch anfon e-bost at **[cyfeiriad e-bost]**.

Yr eiddoch yn gywir,

.....

[nodwch enw a swydd] [Awdurdod]

Atodlen 1

Rhybuddion - gwarchodaethau y bydd Awdurdod Lleol yn eu colli drwy gael ei gategoreiddio fel Cleient Proffesiynol

Mae gan Gleientiaid Proffesiynol lai o warchodaeth dan gyfundrefnau rheoleiddio'r DU a'r UE na'r hyn sydd gan Gleientiaid Manwerthu. Er gwybodaeth yn unig, mae'r Atodlen hon yn cynnwys crynodeb o'r gwarchodaethau y byddwch yn eu colli os ydych yn gwneud cais i fod yn Gleient Proffesiynol a chytuno i gael eich trin felly.

Rhan 1- Colli gwarchodaethau fel Cleient Proffesiynol wrth dderbyn Gwasanaethau

1. Cyfathrebu gyda chleientiaid, gan gynnwys cynigion ariannol

Fel Cleient Proffesiynol, gall pa mor syml a pha mor aml mae'r cwmni'n cyfathrebu â chi fod yn wahanol i'r ffordd y byddwn yn cyfathrebu â Chleient Manwerthu. Fodd bynnag, bydd y cwmnïau yn sicrhau bod eu cyfathrebu yn parhau'n deg, yn glir ac nad ydyw'n gamarweiniol.

2. Gwybodaeth am y cwmni, ei wasanaethau a chydabyddiaeth ariannol

Mae'r math o wybodaeth mae cwmni yn ei roi i Gleientiaid Manwerthu amdano ei hun, ei wasanaethau a'i gynnyrch a sut mae'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol, yn wahanol i'r hyn mae'n ei ddarparu i Gleientiaid Proffesiynol. Yn benodol,

(A) Mae'n rhaid iddo ddarparu gwybodaeth ynghylch y meysydd hyn i bob cleient, ond gall manylder, ffurf ac amseriad y ddarpariaeth fod yn llai penodol i gleientiaid nad ydynt yn Gleientiaid Manwerthu;

(B) efallai na fydd y wybodaeth sy'n cael ei darparu mewn perthynas â chost a ffioedd am ei wasanaethau ac/neu gynnyrch mor gynhwysfawr i Gleientiaid Proffesiynol ac y byddai i Gleientiaid Manwerthu, er enghraifft, mae gofyn arnynt pan fônt yn cynnig pecyn o gynnyrch a gwasanaethau i roi gwybodaeth ychwanegol i Gleientiaid Manwerthu ynghylch y risgiau a'r elfennau sy'n llunio'r pecyn hwnnw; ac

(C) wrth ymdrin ag archebion ar ran Cleientiaid Manwerthu, mae rheidrwydd arno i'w hysbysu am unrhyw anawsterau perthnasol wrth ymdrin â'r archebion; efallai na fydd y rheidrwydd hwn yn berthnasol o ran Cleientiaid Proffesiynol.

3. Addasrwydd

Wrth ddarparu cyngor neu wrth ddarparu gwasanaethau rheoli portffolio, wrth asesu addasrwydd ar gyfer Cleientiaid Proffesiynol, mae gan gwmni hawl i dybio o ran y cynnyrch, y trafodion a'r gwasanaethau y mae Cleientiaid Proffesiynol wedi cael eu dosbarthu ar eu cyfer, bod ganddynt y lefel angenrheidiol o brofiad a gwybodaeth i ddeall y risgiau sydd ynghlwm â rheoli eu buddsoddiadau. Ni all cwmnïau wneud tybiaeth fel hyn o ran Cleientiaid Manwerthu ac mae'n rhaid iddynt asesu'r wybodaeth hon ar wahân. Byddai angen i gwmnïau ddarparu adroddiad addasrwydd i Gleientiaid Manwerthu, pan fônt yn darparu cyngor ar fuddsoddiadau.

4. Priodoldeb

O ran trafodion pan nad yw'r cwmni yn darparu cyngor ar fuddsoddiadau neu wasanaethau rheoli disgresiwn (megis gweithredu yn unig "*execution-only trade*"), efallai y bydd angen asesu p'un a yw'r trafodyn yn briodol ar gyfer y cleient dan sylw. O ran Cleient Manwerthu, mae prawf penodol ar gael i ganfod p'un a oes gan y cleient y lefel ofynnol o wybodaeth a phrofiad i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â'r trafodyn perthnasol. Fodd bynnag, mewn perthynas â Chleient Proffesiynol, mae gan gwmni hawl i dybio bod ganddo'r lefel ofynnol o brofiad, gwybodaeth ac arbenigedd i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â thrafodion o ran cynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu dosbarthu fel rhai i Gleientiaid Proffesiynol.

5. Delio

Gellir ystyried amrediad o ffactorau ar gyfer Cleientiaid Proffesiynol er mwyn cyflawni'r

gweithrediad gorau (mae'r pris yn ffactor bwysig ond gall pwysigrwydd ffactorau eraill gwahanol, megis cyflymder, costau a ffioedd, amrywio). I'r gwrthwyneb, wrth ymgymryd â thrafodion ar gyfer Cleientiaid Manwerthu, y ffactor bwysicaf wrth benderfynu ar y gweithrediad gorau fydd yr ystyriaeth gyflawn, o ran pris yr offeryn ariannol a chostau'r gweithrediad.

6. Adrodd am wybodaeth

O ran trafodion pan nad yw cwmni yn darparu gwasanaethau rheoli disgresiwn (megis trafodion gweithredu yn unig "*execution-only*"), mae'r amserlen ar gyfer cadarnhau bod archeb wedi'i gweithredu yn fwy manwl ar gyfer archebion Cleientiaid Manwerthu na archebion Cleientiaid Proffesiynol.

7. Cleientiaid yn adrodd

Bydd cwmnïau buddsoddi sy'n rheoli portffolio manwerthu sy'n cynnwys offerynnau ariannol neu drafodion ymrwymïadau wrth gefn yn hysbysu'r Cleient Manwerthu, pan fo gwerth cychwynnol pob offeryn yn dad-brisio 10% ac wedi hynny wrth luosrifau o 10%. Nid yw'r adroddiadau hyn yn gorfod cael eu cynhyrchu ar gyfer Cleientiaid Proffesiynol.

8. Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol

Efallai na fydd y Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol ar gael i chi fel Cleient Proffesiynol.

9. Iawndal Buddsoddwyr

Nid yw cymhwyster am iawndal o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol yn ddibynnol ar eich categori ond ar gyfansoddiad eich sefydliad. Ni effeithir ar eich hawliau (os o gwbl) i wneud hawliad dan Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol yn y DU drwy gael eich categoreiddio fel Cleient Proffesiynol.

10. Eithrio atebolrwydd

Mae gallu cwmni i eithrio neu gyfyngu ar unrhyw ddyletswydd atebolrwydd sy'n ddyledus i gleientiaid yn fwy cul dan reolau'r FCA o ran Cleientiaid Manwerthu o gymharu â Chleientiaid Proffesiynol.

11. Ymrwymiad Masnachu

O ran cyfranddaliadau sy'n cael eu masnachu ar farchnad wedi'i rheoleiddio neu sy'n cael eu masnachu mewn lleoliad masnachu, gallai cwmni, o ran buddsoddiadau'r Cleientiaid Manwerthu, drefnu i fasnach o'r fath gael ei wneud yn unig ar farchnad wedi'i rheoleiddio, cyfleuster masnachu amlochrog, *systemic internaliser* neu leoliad masnachu gwlad trydydd byd (*third-country trading venue*). Mae hwn yn gyfyngiad na fydd yn berthnasol, o bosib, o ran masnachu a wneir ar ran Cleientiaid Proffesiynol.

12. Trosglwyddo trefniadau sicrwydd ariannol

Fel Cleient Proffesiynol, gallai'r cwmni ddiweddu trefniadau i drosglwyddo teitl sicrwydd ariannol er dibenion sicrhau neu ddiogelu eich ymrwymadau presennol, yn y dyfodol, gwirioneddol neu bosib, na fyddai'n bosib ar gyfer Cleientiaid Manwerthu.

13. Arian Cleientiaid

Mae'r gofynion dan reolau arian cleientiaid Llawlyfr yr FCA (CASS) yn fwy penodol ac yn rhoi mwy o warchodaeth i Gleientiaid Manwerthu na Chleientiaid Proffesiynol.

Rhan 2 - Gwarchodaethau y bydd Awdurdod Lleol yn eu colli fel darpar fuddsoddwr os bydd yn cael ei gategoreiddio fel Cleient Proffesiynol er dibenion Cynigion y Gronfa.

1. Cynigion y Gronfa

Yn gyffredinol, ni chaniateir i gwmnïau farchanta cronfeydd buddsoddi amgen (AIF) i fuddsoddwyr sy'n Gleientiaid Manwerthu (er bod eithriadau cyfyngedig penodol i'r rheol hon). Fel Cleient Proffesiynol, yn gyffredinol, bydd gan gwmnïau hawl (yn amodol ar gydymffurfio â rheolau marchnata perthnasol) i gyfranddaliadau neu unedau'r farchnad mewn AIF, heb fod yn destun i'r cyfyngiad hwn.

2. Buddsoddiadau wedi'u pŵlio (heb fod yn rhai prif ffrwd)

Er dibenion cyfundrefn rheoleiddio'r DU, fel arfer, mae AIF yn cael eu cynnwys o fewn y diffiniad o gynlluniau buddsoddi ar y cyd nad ydynt wedi'u rheoleiddio ("*unregulated collective investment scheme*"). Mae rheoleiddio'r DU yn ystyried y cynlluniau buddsoddi ar y cyd nad ydynt wedi'u rheoleiddio yn fuddsoddiadau risg uchel, nad ydynt yn addas yn gyffredinol ar gyfer Cleientiaid Manwerthu. Fel y cyfryw, ni chaniateir i gwmnïau farchnata buddsoddiadau mewn cynlluniau buddsoddi ar y cyd nad ydynt wedi'u rheoleiddio i Gleientiaid Manwerthu (er bod eithriadau cyfyngedig penodol i'r rheol hon). Fel Cleient Proffesiynol, yn gyffredinol, bydd gan gwmnïau hawl i hyrwyddo buddsoddiad mewn cynlluniau buddsoddi ar y cyd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, heb fod yn destun y cyfyngiad hwn (ac heb wneud unrhyw asesiad p'un a fyddai'r buddsoddiad yn addas neu'n briodol i chi).

3. Cyfathrebu gyda chleientiaid, gan gynnwys cynigion ariannol

Yn gyffredinol, mae rheolau manwl yn llywodraethu ffurf a chynnwys y cynigion ariannol sy'n cael eu cyflwyno i fuddsoddwyr sy'n Gleientiaid Manwerthu. Fodd bynnag, mae'r rheolau manwl hyn ar ffurf a chynnwys yn cael eu defnyddio'n llai grymus pan fo cynnig yn cael ei gyflwyno i fuddsoddwyr sy'n Gleientiaid Proffesiynol yn unig. Fel Cleient Proffesiynol, yn gyffredinol, bydd gan gwmnïau hawl i gyflwyno cynigion ble nad ydynt yn bodloni'r rheolau manwl ynghylch ffurf a chynnwys i Gleientiaid Manwerthu. Fodd bynnag, rhaid i gwmnïau sicrhau bod y cyfathrebu yn parhau'n deg, yn glir ac nad ydynt yn gamarweiniol.

4. Ombwdsman Ariannol

Efallai na fydd gwasanaethau'r Gwasanaeth Ombwdsman Ariannol ar gael i chi fel Cleient Proffesiynol

5. Iawndal Buddsoddwyr

Nid yw cymhwyster am iawndal o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol yn ddibynnol ar eich categori ond ar gyfansoddiad eich sefydliad. Ni effeithir ar eich hawliau (os o gwbl) i wneud hawliad dan Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol yn y DU drwy gael eich categoreiddio fel Cleient Proffesiynol.

Cleient Proffesiynol Detholus - Asesiad Statws

ENW'R AWDURDOD LLEOL: _____

CAPASITI: Fel awdurdod gweinyddu'r cynllun pensiwn llywodraeth leol

ENW'R SWYDDOG SY'N CWBLHAU'R HOLIADUR: _____

DYDDIAD: _____

PRAWF MEINTIOL

Atebwch gwestiynau (a) - (d) isod. Sicrhewch bod y manylion sy'n ffurfio sail y penderfyniad yn cael ei gofnodi.

<i>Atebwch gwestiwn (a) gan roi ateb o "✓" / "X"</i>	
(a) A yw maint portffolio offerynnau ariannol yr awdurdod lleol (gan gynnwys adneuon arian parod ac offerynnau ariannol) er ei ddibenion wrth weithredu cynllun pensiwn llywodraeth leol yn fwy na 10,000,000 GBP ? Maint y portffolio _____ ar y dyddiad:	<input type="checkbox"/> ✓ <input type="checkbox"/> X
(b) A yw'r awdurdod lleol yn 'awdurdod gweinyddu' ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o fewn ystyr y fersiwn o Atodlen 3 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, neu (o ran yr Alban) o fewn ystyr fersiwn Atodlen 3 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Yr Alban) 2014 sydd mewn grym ar 1 Ionawr 2018, ac yn gweithredu yn unol â'r capasiti hwnnw?	<input type="checkbox"/> ✓ <input type="checkbox"/> X
<i>Os mai "✓" yw'ch ateb i gwestiwn (b) uchod, nid oes angen cwblhau cwestiynau (c) na (d) yn yr asesiad; gellir nodi "Amherthnasol" ar gyfer y ddau.</i>	
(c) A yw'r awdurdod lleol wedi cwblhau trafodion (o faint sylweddol) ar y farchnad berthnasol, ar amllder cyfartalog sydd yn o leiaf 10 fesul chwarter ar gyfer y pedwar chwarter blaenorol (h.y. o leiaf 40 o fuddsoddiadau ar y farchnad berthnasol yn y flwyddyn ddiwethaf)? Cyfanswm y trafodyn:	<input type="checkbox"/> ✓ <input type="checkbox"/> X Amherthnasol <input type="checkbox"/>
(d) A yw'r person sydd wedi'i awdurdodi i gwblhau trafodion ar ran yr awdurdod lleol yn gweithio, neu a ydy'r person hwnnw wedi gweithio yn y sector ariannol am o leiaf blwyddyn mewn swydd broffesiynol, sy'n gofyn am wybodaeth ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau a ddarlunnir? Manylion swydd:	<input type="checkbox"/> ✓ <input type="checkbox"/> X Amherthnasol <input type="checkbox"/>

Y PRAWF ANSODDOL

Mae'r "prawf ansoddol" yn gofyn i gwmni gynnal asesiad o **arbenigedd, profiad a gwybodaeth** yr awdurdod lleol, er mwyn i'r cwmni fod yn rhesymol sicr, yn sgil natur y trafodion neu'r gwasanaethau a ddarlunnir, bod yr awdurdod lleol yn mynd i fedru **gwneud ei benderfyniadau buddsoddi ei hun a deall y risgiau cysylltiedig**¹.

Er mwyn i gwmni gynnal yr asesiad angenrheidiol ar gyfer dibenion y prawf ansoddol, rhaid derbyn gwybodaeth benodol gan awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol roi atebion i'r cwestiynau sydd wedi'u nodi isod mewn ffordd mor gynhwysfawr â phosib. Dylai'r cwmni ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd gan y cleient awdurdod lleol a'u hasesu'n fewnol.

I'W GWBLHAU GAN Y CLEIENT AWDURDOD LLEOL


Adran 1: Y corff gwneud penderfyniadau o ran buddsoddi pensiwn yn eich awdurdod

Cwblhewch yr adran isod mewn perthynas â'r corff gwneud penderfyniadau o fewn yr awdurdod.

1.	Nodwch pa <u>un</u> o'r modelau isod sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau buddsoddi yn yr awdurdod gweinyddu.		
a	Pob penderfyniad yn cael ei ddirprwyo i bwyllgor neu is-bwyllgor. <i>(Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i'r cofnod sy'n rhoi'r awdurdodiad angenrheidiol i'r swyddog sy'n cwblhau'r ddogfen hon i wneud hynny)</i>	<div>√ <input type="checkbox"/></div> <div>X <input type="checkbox"/></div> <div>Wedi'i amgáu <input type="checkbox"/></div> <div>Dolen <input type="checkbox"/></div>	
b	Penderfyniadau'n cael eu dirprwyo i bwyllgor neu is-bwyllgor gyda dirprwyaeth rhannol i swyddog(ion). <i>(Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i'r cofnod sy'n rhoi'r awdurdodiad angenrheidiol i'r swyddog sy'n cwblhau'r cais hwn i wneud hynny)</i>	<div>√ <input type="checkbox"/></div> <div>X <input type="checkbox"/></div> <div>Wedi'i amgáu <input type="checkbox"/></div> <div>Dolen <input type="checkbox"/></div>	
c	Pob penderfyniad wedi'i ddirprwyo i swyddog(ion).	<div>√ <input type="checkbox"/></div> <div>X <input type="checkbox"/></div>	
d	Arall	<div>√ <input type="checkbox"/></div> <div>X <input type="checkbox"/></div>	

2.	Atodwch gopi neu ddolen i'r rhestr berthnasol o ddirprwyaethau, sy'n cadarnhau manylion y model a ddewiswyd uchod.	<div>Wedi'i amgáu <input type="checkbox"/></div> <div>Dolen <input type="checkbox"/></div>	
----	--	--	--

3.	Os ydych wedi dewis model "d - arall", defnyddiwch y blwch isod i ddisgrifio cyfansoddiad y model gwneud penderfyniadau gan roi manylion y partïon a'u swyddogaethau. Dylai'r manylion gynnwys gwybodaeth ynghylch sut mae'r corff gwneud penderfyniadau yn cael ei lunio, ei gyfansoddi ac yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd.		
----	--	--	--



Adran 2: Arbenigedd, profiad a gwybodaeth

Atebwch y cwestiynau a ganlyn mewn perthynas ag aelodau'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor (*nid swyddogion, ymgynghorwyr buddsoddi neu ymgynghorwyr eraill*) sy'n gwneud penderfyniadau buddsoddi ar ran yr awdurdod.

Os ateboch (c) yn Adran 1, Cwestiwn 1, ewch ymlaen i Adran 3.

1	A yw aelodau'n derbyn briff ysgrifenedig wrth iddynt ymuno â'r pwyllgor? (<i>Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i gopi sy'n rhoi enghraifft o'r briffio</i>)	<input type="checkbox"/> √ <input type="checkbox"/> X Wedi'i amgáu <input type="checkbox"/> Dolen <input type="checkbox"/>
2	A yw aelodau'n derbyn hyfforddiant ar faterion buddsoddi? (<i>Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i enghreifftiau o'r hyfforddiant a gynigiwyd i aelodau yn ystod y 12 mis diwethaf</i>)	<input type="checkbox"/> √ <input type="checkbox"/> X Wedi'i amgáu <input type="checkbox"/> Dolen <input type="checkbox"/>
	Nodwch gyfanswm nifer yr oriau o hyfforddiant a gynigiwyd ac a gyflwynwyd i'r pwyllgor dros y 12 mis diwethaf.	oriau a gynigiwyd oriau a gyflwynwyd
3	A yw presenoldeb aelodau mewn hyfforddiant yn cael ei fonitro a'i gofnodi?	<input type="checkbox"/> √ <input type="checkbox"/> X
4	Nodwch y nifer cyfartalog o oriau o hyfforddiant mae aelodau'r pwyllgor wedi'u mynychu dros y 12 mis diwethaf.	awr
5	Nodwch y nifer cyfartalog o oriau mae aelodau'r pwyllgor wedi'u treulio mewn cynadleddau buddsoddi dros y 12 mis diwethaf.	awr
6	A oes angen i aelodau gwblhau hunan-asesiad o ran eu gwybodaeth am fuddsoddiadau? (<i>Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i fanylion y teclyn hunan-asesu sy'n cael ei ddefnyddio</i>)	<input type="checkbox"/> √ <input type="checkbox"/> X Wedi'i amgáu <input type="checkbox"/> Dolen <input type="checkbox"/>
7	Nodwch nifer cyfartalog y blynyddoedd a wasanaethwyd ar y pwyllgor (neu bwyllgorau buddsoddi o'r fath) ar gyfer pob aelod	blwyddyn
8	Nodwch unrhyw wybodaeth arall a allai fod o gymorth gydag asesu gwybodaeth, profiad ac arbenigedd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor - (megis nifer cyfartalog y blynyddoedd o brofiad buddsoddi annibynnol sydd gan aelodau).	

Adran 3: Hanes a Strategaeth Buddsoddi

1	Cwblhewch y cwestiynau a ganlyn mewn perthynas â hanes yr awdurdod a'i strategaeth buddsoddi cyfredol o ran buddsoddiadau a geir drwy fandad buddsoddi rheolwr buddsoddi neu a fuddsoddir yn uniongyrchol (e.e. cronfeydd).
---	---

Dosbarth ased neu gerbyd buddsoddi	Nifer y blynyddoedd a ddaliwyd	Yn cael eu dal ar hyn o bryd
Gwarantau llog sefydlog	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Gwarantau'n gysylltiedig â'r indecs	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Ecwiti wedi'u rhestru	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Dulliau buddsoddi wedi'u cyfuno (PIVs) - cronfeydd awdurdodedig (e.e. UCITS, NURS, PAIFs)	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Dulliau buddsoddi wedi'u cyfuno (PIVs) - anawdurdodedig (e.e. ymddriedolaethau buddsoddi, cronfeydd <i>close-ended real estate, hedge funds</i>)	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
PIVs Eiddo	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Cronfeydd ecwiti preifat	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Eiddo	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
<i>Exchange traded derivatives</i> (ETDs)	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
<i>Over-the-counter derivatives</i> (OTCs)	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Nwyddau	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Adneuron arian parod	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Papur masnachol	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
<i>Floating rate notes</i>	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Cronfeydd Marchnad Arian	0 <input type="checkbox"/> 1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
Dosbarth ased arall neu gerbyd buddsoddi ble mae gan yr awdurdod brofiad (Nodwch y manylion isod)		
	1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
	1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
	1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>
	1-3 <input type="checkbox"/> 4-5 <input type="checkbox"/> 5+ <input type="checkbox"/>	√ <input type="checkbox"/> X <input type="checkbox"/>

2	Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i'r fersiwn diweddaraf o Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi yr awdurdod (Cymru a Lloegr) neu Ddatganiad Egwyddorion Buddsoddi (Yr Alban).	Wedi'i amgáu Dolen	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
3	A yw'r awdurdod wedi cymryd y cyngor priodol, fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau, wrth baratoi ei Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi?	√ X	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>

Adran 4: Deall y risgiau

Atebwch y cwestiynau a ganlyn mewn perthynas ag aelodau'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor neu'r swyddogion (*nid ymgynghorwyr buddsoddi neu ymgynghorwyr eraill*) sy'n gwneud penderfyniadau buddsoddi ar ran yr awdurdod.

1	A oes gan yr awdurdod fframwaith risg ac/neu bolisi rheoli risg yn ei le mewn perthynas â buddsoddiadau? (<i>Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i fanylion y fframwaith/polisi</i>)	<div> <div>√</div> <div>X</div> </div> <div> <div>Wedi'i amgáu</div> <div>Dolen</div> </div>	<div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div>
2	A gymerwyd cyngor allanol o ran y gwaith o baratoi, monitro ac adolygu'r fframwaith / polisi? Os do, nodwch enw'r ymgynghorydd:	<div> <div>√</div> <div>X</div> </div>	<div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div>
3	A yw'r fframwaith/polisi risg yn cael ei adolygu'n rheolaidd? Os YDY, nodwch amllder yr adolygiad. (<i>Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i fanylion yr adolygiad diwethaf</i>)	<div> <div>√</div> <div>X</div> </div>	<div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div>
4	A yw'r rhai sy'n rhan uniongyrchol o wneud penderfyniadau yn cael hyfforddiant ar reoli risg, gan gynnwys hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau? (<i>Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i enghreifftiau o'r hyfforddiant a gynigiwyd yn ystod y 12 mis diwethaf</i>)	<div> <div>√</div> <div>X</div> </div> <div> <div>Wedi'i amgáu</div> <div>Dolen</div> </div>	<div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div>
5	A oes angen i'r rhai sy'n rhan uniongyrchol o wneud penderfyniadau gwblhau hunan-asesiad o ran eu dealltwriaeth o reoli risg? (<i>Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i fanylion y teclyn hunan-asesu sy'n cael ei ddefnyddio</i>)	<div> <div>√</div> <div>X</div> </div> <div> <div>Wedi'i amgáu</div> <div>Dolen</div> </div>	<div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div>

Adran 5: Cefnogaeth i benderfyniadau buddsoddi a wnaed gan bwyllgor/is-bwyllgor yr awdurdod

Atebwch y cwestiynau a ganlyn mewn perthynas â'r swyddogion, ymgynghorwyr buddsoddi neu ymgynghorwyr eraill sy'n gwneud penderfyniad uniongyrchol at gynorthwyo pwyllgor/is-bwyllgor yr awdurdod sy'n gwneud penderfyniadau neu'r swyddogion hynny sydd â phwerau gwneud penderfyniadau dirprwyedig.

Yn Adran 1, Cwestiwn 1, os ateboch:

- Model a - cwblhewch Gwestiwn 1 isod
- Model b - cwblhewch Gwestiynau 1 a 2 isod
- Model c - cwblhewch Gwestiwn 2 isod
- Model d - cwblhewch y cwestiynau isod fel sy'n briodol

1.	Ar gyfer pob <u>swyddog sy'n darparu cefnogaeth</u> i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, nodwch y wybodaeth a ganlyn.
----	--

Teitl swydd	Cymwysterau perthnasol	Blynyddoedd o brofiad yn y swydd ²

2.	Ar gyfer pob <u>swyddog sydd â phwerau buddsoddi dirprwyedig</u> nodwch y wybodaeth a ganlyn (gallai'r rhain fod yr un swyddogion a'r uchod).
----	---

Teitl swydd	Cyfyngiad ar ddsbarthiadau ased neu gerbydau buddsoddi	Cyfyngiad ar ddirprwyaeth (£m)

3	A oes gan yr awdurdod gynllun dilyniant ysgrifenedig yn ei le i reoli'r risg person allweddol mewn perthynas â'r swyddogion uchod? (Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i fanylion y cynllun dilyniant)	<div>✓ X</div> <div>Wedi'i amgáu</div> <div>Dolen</div>	<div><input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div> <div><input type="checkbox"/></div>
---	---	---	--

4.	Ar gyfer pob <u>ymgyngorydd buddsoddi unigol</u> a ddefnyddir gan yr awdurdod, nodwch y wybodaeth a ganlyn <i>dim ond i'w gwblhau pan fo'r ymgynghorwyr buddsoddi unigol hyn wedi ymgysylltu ar sail annibynnol ble nad ydynt yn gweithredu ar ran endid sydd wedi'i restru ym mhwynt 5 isod</i> .
----	--

Enw	Cymwysterau perthnasol	Blynyddoedd o brofiad yn y swydd ³

2 Neu swyddogaeth debyg fyddai'n darparu gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau a ddarlunnir, a allai fod wedi'u cwblhau mewn sefydliad gwahanol.

3 Neu swyddogaeth debyg fyddai'n darparu gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau a ddarlunnir.

5.	Ar gyfer pob <u>cwmni ymgynghori ar fuddsoddiadau</u> a ddefnyddir gan yr awdurdod, nodwch y wybodaeth a ganlyn.
----	--

Enw'r cwmni	Manylion yr awdurdodiad FCA	Blynyddoedd yng nghyflogaeth yr awdurdod

6.	Ar gyfer pob <u>ymgyngorydd buddsoddi unigol</u> a ddefnyddir gan yr awdurdod, nodwch y wybodaeth a ganlyn (<i>dim ond i'w gwblhau pan fo'r ymgynghorwyr hyn wedi ymgysylltu ar sail annibynnol ble nad ydynt yn gweithredu ar ran endid sydd wedi'i restru ym mhwynt 7 isod</i>) .
----	---

Enw	Cymwysterau perthnasol	Blynyddoedd o brofiad yn y swydd ⁴

7.	Ar gyfer pob <u>cwmni ymgynghori ar fuddsoddiadau</u> a ddefnyddir gan yr awdurdod, nodwch y wybodaeth a ganlyn.
----	--

Enw'r cwmni	Manylion yr awdurdodiad FCA	Blynyddoedd yng nghyflogaeth yr awdurdod

8.	Cadarnhewch p'un a yw'r swyddog, cwmni / unigolyn sy'n cynghori ar fuddsoddiadau, cwmni/unigolyn sy'n ymgynghori ar fuddsoddiadau, yn ymwybodol o'r ddibyniaeth sy'n cael ei roi arno er dibenion categoreiddio cleientiaid Awdurdodau Lleol.	<div>√ <input type="checkbox"/></div> <div>X <input type="checkbox"/></div>
----	---	---

4 Neu swyddogaeth debyg fyddai'n darparu gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau a ddarlunnir.

Adran 6 Cwestiynau Cyffredinol

1.	Yn y tair blynedd ddiwethaf, a yw'r awdurdod wedi cael cerydd am dorri'r rheoliadau buddsoddi Llywodraeth Leol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd neu unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu? (Ticiwch p'un a ydych wedi atodi neu ddarparu dolen i fanylion y toriad hwn)	<div> <div>✓</div> <div>X</div> </div> <div> <div>Wedi'i amgáu</div> <div>Dolen</div> </div>	<input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
----	--	--	--

2.	Defnyddiwch y blwch isod i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach a allai fod yn ddefnyddiol i gefnogi eich cais.
----	--

CYFARFOD	Pwyllgor Pensiynau
DYDDIAD	29 Medi 2017
TEITL	Cyfrifon Terfynol Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno er gwybodaeth – <ul style="list-style-type: none">• Datganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn ôl-Archwiliad;• Adroddiad 'ISA260' Deloitte.
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

1. Cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon 2016/17 (cyn archwiliad) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 13 Gorffennaf 2017, pryd bu craffu priodol. Nodwyd yng nghyfarfod Gorffennaf byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.
2. Cyflwynwyd y fersiwn terfynol o Ddatganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn ac adroddiad 'ISA260' Deloitte (ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 28 Medi 2017, ac mae'r adroddiad hwnnw wedi'i atodi i chi heddiw er gwybodaeth. Bydd swyddogion o Adran Cyllid y Cyngor yn egluro sefyllfa'r argymhellion ar lafar yng nghyfarfod y Pwyllgor.
3. Wedi iddo dderbyn y Llythyrau Cynrychiolaeth wedi'u hardystio gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Huw Vaughan Thomas) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau nodi a derbyn y Datganiad o Gyfrifon ac adroddiad Deloitte / Swyddfa Archwilio Cymru.

CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2016/17

31 Mawrth 2016 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2017 £'000
	Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa		
67,317	Cyfraniadau derbyniadwy	7	67,695
8	Llog ar gyfraniadau gohiriedig		7
3	Incwm ar gyfrifo ysgariad		2
	Llog ar gyfraniadau a delir yn hwyr		
5,075	Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill	8	5,893
72,403	Cyfanswm y cyfraniadau a dderbyniwyd		73,597
(55,186)	Buddion sy'n daladwy	9	(53,982)
(2,852)	Taliadau i rai sy'n ymadael	10	(3,970)
(58,038)	Cyfanswm y buddion a dalwyd		(57,952)
14,365			15,645
(10,060)	Costau rheolaeth	11	(11,641)
	Enillion ar fuddsoddiadau		
11,874	Incwm buddsoddi	14	12,886
(530)	Treth ar incwm	15	(378)
12,383	Elw a (cholled) wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	16	322,316
23,727	Enillion net o dreth ar fuddsoddiadau		334,824
28,032	Cynnydd yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn		338,828
	Asedau net y Gronfa		
1,497,373	Ar 1 o Ebrill		1,525,405
28,032	Cynnydd yn yr asedau net		338,828
1,525,405			1,864,233

DATGANIAD ASEDau NET AR 31 MAWRTH 2017

31 Mawrth 2016 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2017 £'000
1,455,230	Asedau buddsoddi	16	1,798,325
42,631	Adneuon arian parod	16	49,248
1,497,861			1,847,573
(64)	Ymrwymadau buddsoddi	16	(235)
31,887	Asedau cyfredol	21	20,984
(4,279)	Ymrwymadau cyfredol	22	(4,089)
1,525,405			1,864,233

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhrisiadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2016) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa eto yn gallu cwrdd â 100% o ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir y gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 20.

NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd. Y Cyngor yw'r endid adrodd ar gyfer y gronfa bensiwn hon. Crynodeb o'r Gronfa yw'r disgrifiad a ganlyn. Am fwy o fanylion, dylid cyfeirio at Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd 2015/16 a'r pwerau statudol sy'n tanategu'r cynllun, sef Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

a) Cyffredinol

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'n gynllun pensiwn sy'n seiliedig ar gyfraniadau a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrff ar yr atodlen, cyrff a benderfynir a chyrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r Gronfa'n cael ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

b) Aelodaeth

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa dan gytundeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrff a ganiateir yn cynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

Cyrff ar yr atodlen	
Cyngor Gwynedd	Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ysgol Bryn Eilian
Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Emrys ap Iwan
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Ysgol Pen y Bryn
Grŵp Llandrillo – Menai	Ysgol Uwchradd Eirias
GWE	NWTRA
Cyrff a benderfynir	
Cyngor Cymuned Llanllyfni	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Dinas Bangor	Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Abergele	Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Bae Colwyn	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Tref Biwmares	Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
Cyngor Tref Caergybi	Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Tref Caernarfon	Cyngor Tref Conwy
Cyrff a ganiateir	
CAG Coleg Harlech	Cymdeithas Gogledd Cymru'r Deillion
CAIS	Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Canolfan Cyngori Conwy	Gyrfaedd Cymru Gogledd Orllewin
Canolfan Cyngori Ynys Môn	Mantell Gwynedd
Cwmni Cynnal	Medrwn Môn
Cwmni'r Frân Wen	Menter Môn
Cydbwyllgor Claddu Caergybi	
Cyrff cymunedol a ganiateir	
Cartrefi Conwy	Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Cyrff trosglwyddai a ganiateir	
Caterlink	Jewsons
Superclean I	Antur Teifi
ABM Catering	

c) Cyllid

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau CPLIL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 ac maent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy'r aelod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017. Hefyd mae'r cyflogwyr yn gwneud cyfraniadau sy'n cael eu gosod yn seiliedig ar y prisiad actiwareidd a gynhelir bob tair blynedd. Gweithredwyd cyfraniadau cyflogwr newydd ar gyfer y tair mlynedd o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2017 yn dilyn y prisiad a wnaethpwyd ar 31 Mawrth 2013.

d) Buddion

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol.	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol.
Lwmp swm	Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blyneddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blyneddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

O 1 Ebrill 2014, daeth y cynllun yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod.

	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbrisio (CARE)
Lwmp Swm	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blyneddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

Caiff pensiwn cronedig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

Mae'r buddion yn gysylltiedig â mynegai er mwyn glynu at y raddfa chwyddiant cyfredol.

NODYN 2 – SAIL DARPARIAETH

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2017. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol na'r gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifyddu Genedlaethol (IAS) 19, yn Nodyn 20 y cyfrifon hyn.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

a) Incwm o Gyfraniadau

Cyfrifir cyfraniadau arferol, gan weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd, yn seiliedig ar groniad ar y raddfa ganrannol a argymhellir gan actiwari'r Gronfa yn y cyfnod cyflogres y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn ddaliadwy dan atodlen cyfraniadau'r cynllun actwari neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad terfyn.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus hyd flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill

Mae'r gwerthoedd trosglwyddo'n cynrychioli'r symiau a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd naill ai wedi ymuno neu sydd wedi gadael y Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol ac maent yn cael eu cyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler Nodiadau 8 a 10).

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni'n cael eu gwneud yn seiliedig ar dderbynion a thaliadau, ac fel arfer mae hyn yn digwydd pan dderbynnir neu pan ryddheir ymrwymadau aelod.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn i'r Gronfa gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion y cynllun ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 8).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

c) Incwm buddsoddi

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n berthnasol i'r offeryn ariannol ar y dyddiad pan geir y llog neu ar darddiad y llog. Mae incwm yn cynnwys amorteiddiad unrhyw ddisgownt neu bremiwm, costau trafodi neu wahaniaethau eraill rhwng swm cario cychwynnol yr offeryn a'i swm pan fo wedi aeddfedu sydd wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar y raddfa llog perthnasol.

ii) Incwm difidend

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn-ddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau

d) Buddion sy'n daladwy

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymadau cyfredol.

e) Trethiant

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

f) Costau rheoli

Nid yw'r Côt yn gofyn am unrhyw ddadansoddiad o gostau gweinyddol y gronfa bensiwn. Fodd bynnag, er mwyn cael tryloywder gwell, mae'r Cyngor yn cyhoeddi costau rheoli'r gronfa bensiwn yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Costs*.

Costau gweinyddol

Cyfrifir am yr holl gostau gweinyddol ar sail croniadau. Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiynau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Telir am gostau cysylltiol rheoli, llety a gorbenion eraill o'r Gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

Costau arolygu a llywodraethu

Cyfrifir am yr holl gostau arolygu a llywodraethu ar sail croniadau. Telir am gostau staff, rheoli, llety a gorbenion eraill yn ymwneud ag arolygu a llywodraethu'r Gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

Costau rheoli buddsoddiadau

Cyfrifir am yr holl gostau rheoli buddsoddiadau yn seiliedig ar groniad.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

Cytunir ar ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r ceidwad allanol yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau dan eu rheolaeth ac felly maent yn cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Yn ogystal, mae'r Gronfa wedi negodi gyda Fidelity International y dylai elfen o'u ffi fod yn gysylltiedig â'u perfformiad. Mae cost cael cyngor ar fuddsoddiadau gan ymgynghorwyr allanol wedi'i gynnwys dan ffioedd rheoli buddsoddiadau.

Mae cyfran o gostau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan swyddogion yn rheoli buddsoddiadau yn cael ei godi ar y Gronfa.

Datganiad asedau net

g) Asedau ariannol

Mae asedau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. O'r dyddiad hwn, bydd y Gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ased.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu fel a ganlyn:

- i) Buddsoddiadau a ddyfynnir ar y farchnad
Penderfynir gwerth buddsoddiad lle bo pris marchnad ar gael yn rhwydd ar sail dyfarniad y pris marchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifo.
- ii) Gwarantau llog sefydlog
Cofnodir gwarantau llog sefydlog ar werth marchnad net yn seiliedig ar eu cynhyrchion cyfredol.
- iii) Buddsoddiadau heb eu dyfynnu
Mae gwerth teg buddsoddiadau ble nad yw'r dyfyniadau marchnad ar gael yn hawdd, yn cael eu pennu fel a ganlyn:
 - Mae stociau heb eu dyfynnu yn cynnwys buddsoddiadau cydgyfrannog mewn eiddo, is adeiladwaith, stociau dyled ac ecwiti preifat. Mae'r prisiad o'r cydgyfraniadau yma neu stociau a ddelir yn uniongyrchol yn cael eu gwneud gan y rheolwr buddsoddi neu endid cyfrifol a gynghorir fel pris uned neu stoc. Mae'r safonau prasio a ddilynir yn y prisiadau yma yn cadw at ganllawiau'r diwydiant neu at safonau a osodwyd yn nogfennau cyfansoddol y pwl neu'r cytundeb rheoli.
 - Caiff buddsoddiadau mewn eiddo heb eu dyfynnu eu prasio ar werth yr ased net neu ar bris unigol a gynghorir gan y rheolwr buddsoddi.
 - Caiff buddsoddiadau mewn cronfeydd ecwiti preifat a phartneriaethau cofrestredig heb eu dyfynnu eu prasio ar sail rhaniad y Gronfa o'r asedau net yn y Gronfa ecwiti preifat neu'r bartneriaeth gyfyngedig gan ddefnyddio'r datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddir gan y rheolwyr buddsoddi priodol mewn cydymffurfriad ag arweiniad IFRS. Mae'n bwysig adnabod natur oddrychol uchel o bennu gwerth teg ar fuddsoddiadau ecwiti preifat. Maent yn reddfod seiliedig ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych ymlaen ac sy'n cynnwys nifer fawr o ffactorau.
- iv) Offerynnau buddsoddi cydgyfrannog
Mae offerynnau buddsoddi cydgyfrannog yn cael eu prasio ar bris bid cau'r farchnad os yw prisiau bid a chynnig yn cael eu cyhoeddi; neu os mai dim ond un pris sydd ar gael, yna'r pris unigol adeg cau'r farchnad. Yn achos offerynnau buddsoddi cydgyfrannog sydd yn gronfeydd cronïad, mae'r newid yng ngwerth y farchnad yn cynnwys incwm sydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn y Gronfa, net o unrhyw dreth atal berthnasol.

h) Trafodion arian tramor

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cynrychioli'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balasau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian parod, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIÂU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

i) Arian a chywerthoedd arian

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuo ar alw. Mae'r hyn a ddisgrifir fel 'Cyfwerth ag Arian Parod' yn cael eu diffinio fel buddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

j) Ymrwymadau ariannol

Mae'r Gronfa'n cydnabod ymrwymadau ariannol fel gwerth teg ohonynt ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ymrwymadau ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn agored i'r ymrwymiad. O'r dyddiad hwn, bydd y Gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad.

k) Gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo

Asesir gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo bob tair blynedd gan actiwari'r cynllun yn unol â gofynion IAS19 a'r safonau actiwaraid perthnasol.

Fel y caniateir dan IAS26, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 20).

l) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r gronfa pensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, The Equitable Life Assurance Society a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddeler yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag adran 4(2)(b) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (OS 2009/3093); yn hytrach fe'u datgelir fel nodyn (Nodyn 23).

NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISIÂU CYFRIFO

Buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith heb eu dyfynnu

Mae'n bwysig cydnabod natur hynod oddrychol pennu gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith. Maent yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu ac is adeiladwaith gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo IFRS. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2017 yn £110 miliwn (£82 miliwn ar 31 Mawrth 2016).

Ymrwymadau'r gronfa pensiwn

Cyfrifir ymrwymadau'r gronfa pensiwn bob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag IAS19. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 19. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY'N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt yn y cyfrifon. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y datganiad asedau net ar 31 Mawrth 2017, ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY’N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO (parhad)

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw’r gwir ganlyniadau’n wahanol i’r rhagdybiaethau
Dyledwyr	Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan y Gronfa falans amrywiol ddyledwyr o £5.6m. Awgrymodd adolygiad o falansau arwyddocaol nad oedd hi’n briodol i wneud unrhyw amhariad o’r dyledion.	Pe byddai’r graddfeydd casglu’n dirywio, byddai angen ail-ystyried y penderfyniad hwn.
Ecwiti preifat ac is adeiladwaith	Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith yn cael ei bennu’n unol â arweiniad y British Venture Capital Association. Nid yw’r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru’n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â’r prisiad.	Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith yn y datganiadau ariannol yn £110 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi’i nodi’n rhy isel neu’n rhy uchel yn y cyfrifon.

NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl dyddiad y fantolen i’w adrodd.

NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

Yn ôl categori

2015/16		2016/17
£'000		£'000
52,149	Cyflogwyr	52,439
15,168	Gweithwyr/Aelodau	15,256
67,317		67,695

Yn ôl awdurdod

2015/16		2016/17
£'000		£'000
22,722	Cyngor Gwynedd	23,210
40,256	Cyrff eraill ar yr atodlen	40,231
1,660	Cyrff a ganiateir	1,514
2,227	Cyrff cymunedol a ganiateir	2,215
203	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	252
195	Cyrff a benderfynir	219
54	Cronfa gaeedig*	54
67,317		67,695

*Cronfa gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Bwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn a oedd yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond bellach sydd yn gronfa gaeedig.

Yn ôl cyfraniad

2015/16		2016/17
£'000		£'000
15,168	Cyfraniadau arferol gweithwyr	15,256
45,106	Cyfraniadau arferol cyflogwyr	46,570
7,043	Cyfraniadau adfer diffyg cyflogwyr	5,869
67,317		67,695

NODYN 8 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

2015/16		2016/17
£'000		£'000
3,889	Trosglwyddiadau grŵp	1,315
1,186	Trosglwyddiadau unigol	4,578
5,075		5,893

NODYN 9 – BUDDION SY’N DALADWY

Yn ôl categori

2015/16		2016/17
£’000		£’000
39,477	Pensiynau	41,081
14,070	Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm	11,093
1,639	Buddion marwolaeth – lwmp swm	1,808
55,186		53,982

Yn ôl awdurdod

2015/16		2016/17
£’000		£’000
15,094	Cyngor Gwynedd	15,233
27,319	Cyrff eraill ar yr atodlen	25,701
1,275	Cyrff a ganiateir	1,561
709	Cyrff cymunedol a ganiateir	1,095
35	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	173
86	Cyrff a benderfynir	58
10,668	Cronfa gaeedig	10,161
55,186		53,982

NODYN 10 – TALIADAU I RAI SY’N YMADAEL

2015/16		2016/17
£’000		£’000
	Ad-daliadau i aelodau sy’n ymadael â’r gwasanaeth	
96	llai ad-daliadau treth	103
77	Taliadau i aelodau sy’n ymuno â chynllun y wladwriaeth	11
2,679	Trosglwyddiadau unigol	3,856
2,852		3,970

NODYN 11 – COSTAU RHEOLI

2015/16		2016/17
£’000		£’000
1,186	Costau gweinyddol	1,242
8,815	Costau rheoli buddsoddiadau (Nodyn 13)	10,343
59	Costau arolygaeth a llywodraethu	56
10,060		11,641

Paratowyd y dadansoddiad hwn o gostau rheoli Cronfa Pensiwn Gwynedd yn ystod y cyfnod yn unol â chanllawiau CIPFA.

NODYN 12 – COSTAU GWEINYDDOL, AROLYGIAETH A LLYWODRAETHU

2015/16		2016/17
£'000		£'000
	Costau gweinyddol	
447	Costau staff uniongyrchol	486
368	Costau uniongyrchol eraill	293
257	Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG	303
29	Ffioedd archwilio allanol	33
85	Ffioedd actiwaraid	128
1,186		1,243
	Costau arolygaeth a llywodraethu	
59	Pwyllgor Pensiynau	55
1,245		1,298

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety. Gweler manylion pellach yn Nodyn 24.

NODYN 13 – COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

2015/16		2016/17
£'000		£'000
8,685	Ffioedd rheoli	10,258
54	Ffioedd gwarchodaeth	45
19	Gwasanaeth monitro perfformiad	3
57	Ffioedd ymgynghoriaeth buddsoddi	37
8,815		10,343

Mae'r ffioedd rheoli uchod yn cynnwys yr holl ffioedd rheoli buddsoddiad a grëwyd yn uniongyrchol gan y Gronfa, yn cynnwys y ffioedd a godwyd ar gronfeydd buddsoddi wedi'u cyfuno.

Mae'r costau rheoli buddsoddiad uchod yn cynnwys £322,972 (2015/16 £748,579) mewn perthynas â ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad a delir i un o reolwyr buddsoddi'r Gronfa. Yn ogystal â'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol a ddaw yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghostau prynu buddsoddiadau ac yn yr enillion a geir wrth werthu buddsoddiadau (gweler Nodyn 16a).

NODYN 14 – INCWM BUDDSODDI

2015/16		2016/17
£'000		£'000
788	Ecwiti'r DU	427
6,019	Ecwiti tramor	6,405
853	Ecwiti preifat	1,239
302	Is adeiladwaith	207
3,764	Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno	4,475
148	Llog ar adneuon arian parod	133
11,874		12,886

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Roedd gan y Cyngor adneuon o £4m gyda Banc Heritable, a roddwyd yn nwylo'r gweinyddwyr ym mis Hydref 2008. Nid oedd unrhyw ad-daliadau yn 2016/17. Yn ystod 2015/16 derbyniwyd ad-daliad o £22,615.66 gan y Gronfa Bensiwn. Mae'r swm wedi'i gynnwys yn y ffigwr llog ar adneuon arian parod ar gyfer 2015/16 yn y tabl uchod. Gweler manylion pellach yn Nodyn 27.

Mae gan y Gronfa Bensiwn gyfrif Ewro i ymdrin â derbyniadau a thaliadau mewn Ewros ac i leihau'r nifer a chostau cyfnewid trafodion.

NODYN 15 – TRETH AR INCWM

2015/16		2016/17
£'000		£'000
530	Treth atal – ecwiti	378
530		378

NODYN 16 – BUDDSODDIADAU

2015/16		2016/17
£'000		£'000
Asedau buddsoddi		
198,845	Llog sefydlog dychweliad absoliwt	236,625
269,784	Ecwiti	345,284
746,944	Buddsoddiadau ecwiti wedi'u cyfuno	963,262
157,734	Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno	142,448
66,278	Ecwiti preifat	82,023
15,262	Is adeiladwaith	28,053
1,454,847		1,797,695
42,631	Adneuon arian parod	49,248
383	Dyledwyr	630
1,497,861	Cyfanswm asedau buddsoddi	1,847,573
Ymrwymadau buddsoddi		
(64)	Symiau taladwy am bryniadau	(235)
(64)	Cyfanswm ymrwymadau buddsoddi	(235)
1,497,797	Asedau buddsoddi net	1,847,338

Nodyn 16a – Cysoni symudiadau mewn buddsoddiadau a deilliadau

2016/17	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2016	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2017
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Stociau llog sefydlog dychweliad absoliwt	198,845	30,000	0	7,780	236,625
Ecwiti	269,784	73,681	(76,100)	77,919	345,284
Buddsoddiadau wedi'u cyfuno	746,944	15,347	(13,492)	214,463	963,262
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno	157,734	18,373	(31,465)	(2,194)	142,448
Ecwiti preifat / Is adeiladwaith	81,540	29,118	(18,212)	17,630	110,076
	1,454,847	166,519	(139,269)	315,598	1,797,695
Adneuon arian parod	42,631			(387)	49,248
Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau	383			(4)	630
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(64)			(1)	(235)
Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno				7,109	
Asedau buddsoddi net	1,497,797	166,519	(139,269)	322,315	1,847,338

2015/16	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2015	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2016
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Stociau llog sefydlog dychweliad absoliwt	197,323	0	0	1,522	198,845
Ecwiti	272,050	66,295	(82,843)	14,281	269,783
Buddsoddiadau wedi'u cyfuno	773,481	7,279	(5,532)	(28,284)	746,945
Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno	143,288	2,266	0	12,180	157,734
Ecwiti preifat / Is adeiladwaith	71,463	13,516	(12,066)	8,627	81,540
	1,457,605	89,356	(100,440)	8,326	1,454,847
Adneuon arian parod	22,082			(47)	42,631
Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau	420				383
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(229)				(64)
Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno				4,104	
Asedau buddsoddi net	1,479,878	89,356	(100,440)	12,383	1,497,797

Cynhwysir costau trafodion, fel comisiwn, treth stamp a ffioedd trafodion eraill, yng nghost y pryniant a derbyniadau gwerthiant. Cyfanswm costau trafodion yn ystod y flwyddyn oedd £171,393 (2015/16 £193,820). Yn ogystal â'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau.

Nodyn I6b – Dadansoddiad o fuddsoddiadau

31 Mawrth 2016 £'000		31 Mawrth 2017 £'000
	Ecwiti	
	Y Deyrnas Unedig	
32,396	Wedi'u dyfynnu	37,453
	Tramor	
237,388	Wedi'u dyfynnu	307,832
	Cronfeydd wedi'u cyfuno	
	Y Deyrnas Unedig	
234,401	Ymddiriedolaethau uned	301,034
	Byd-eang (yn cynnwys y DU)	
198,845	Incwm sefydlog	236,625
274,408	Ymddiriedolaethau uned	355,661
	Tramor	
238,135	Ymddiriedolaethau uned	306,567
157,734	Ymddiriedolaethau uned eiddo	142,447
66,278	Ecwiti preifat	82,023
15,262	Is adeiladwaith	28,053
1,454,847		1,797,695

Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2016			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2017		
£'000	%		£'000	%	
470,435	31.4	BlackRock	601,837	32.6	
305,122	20.4	Fidelity	399,686	21.6	
198,852	13.3	Insight	236,632	12.8	
29,845	2.0	Lothbury	39,599	2.1	
81,540	5.4	Partners Group	110,076	6.0	
15,931	1.0	Threadneedle	16,476	0.9	
83,346	5.6	UBS	48,112	2.6	
312,726	20.9	Veritas	394,920	21.4	
1,497,797	100.0		1,847,338	100.0	

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y cynllun

Gwerth Marchnad 31 Mawrth 2016 £'000	% cyfanswm y Gronfa	Gwarantau	Gwerth Marchnad 31 Mawrth 2017 £'000	% cyfanswm y Gronfa
274,408	17.99	Fidelity Institutional Select Global Equity	355,661	19.08
234,400	15.37	BlackRock Asset Management Aquila Life UK Equity Index Fund	301,033	16.15
198,845	13.04	Insight Umbrella Holdings	236,625	12.69
95,490	6.26	BlackRock Asset Management Aquila Life Global Dev Fundamental Fund	129,078	6.92

Nodyn 16c – Benthycia stoc

Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DoEB) yn nodi y caniateir benthycia stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r gronfa'n benthycia unrhyw stoc.

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL

Nodyn 17a – Dosbarthiad offerynnau ariannol

Mae polisiâu cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddosbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymadau ariannol fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

Fel ar 31 Mawrth 2016			Fel ar 31 Mawrth 2017		
Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Benthyciadau ac arian a dderbynnir	Costau ymrwymadau ariannol	Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Benthyciadau ac arian a dderbynnir	Costau ymrwymadau ariannol
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol					
198,845		Gwarantau llog sefydlog	236,625		
269,784		Ecwiti	345,284		
746,944		Buddsoddiadau wedi'u cyfuno	963,262		
157,734		Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno	142,448		
66,278		Ecwiti preifat	82,023		
15,262		is adeiladwaith	28,053		
0	63,065	Arian parod	0	64,623	
	11,836	Dyledwyr		6,239	
1,454,847	74,901		1,797,695	70,862	0
Ymrwymadau ariannol					
(64)		(4,279) Credydwyr			(4,324)
(64)		(4,279)			(4,324)
1,454,783	74,901	(4,279)	1,797,695	70,862	(4,324)

Nodyn 17b - Enillion a cholledion net ar offerynnau ariannol

31 Mawrth 2016		31 Mawrth 2017
Gwerth teg		Gwerth teg
£'000		£'000
	Asedau ariannol	
8,325	Gwerth teg drwy elw a cholled	315,598
(36)	Benthyciadau a derbyniadau	(392)
8,289	Cyfanswm yr asedau ariannol	315,206
	Ymrwymadau ariannol	
0	Gwerth teg drwy elw a cholled	0
0	Cost ymrwymadau ariannol	0
0	Cyfanswm yr ymrwymadau ariannol	0
8,289	Asedau ariannol net	315,206

Nodyn 17c – Gwerth teg offerynnau ag ymrwymadau ariannol

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymadau ariannol fesul dosbarth o offeryn o'i gymharu â'u gwerth teg.

31 Mawrth 2016			31 Mawrth 2017	
Gwerth cario	Gwerth teg		Gwerth cario	Gwerth teg
£'000	£'000		£'000	£'000
Asedau ariannol				
1,057,007	1,454,847	Gwerth teg drwy elw a cholled	1,120,845	1,797,695
74,901	74,901	Benthyciadau a derbyniadau	70,815	70,811
1,131,908	1,529,748	Cyfanswm yr asedau ariannol	1,191,660	1,868,506
Ymrwymadau ariannol				
(64)	(64)	Gwerth teg drwy elw a cholled	(235)	(235)
(4,279)	(4,279)	Cost ymrwymadau ariannol	(4,038)	(4,038)
(4,343)	(4,343)	Cyfanswm yr ymrwymadau ariannol	(4,273)	(4,273)
1,127,565	1,525,405	Asedau ariannol net	1,187,387	1,864,233

Nid yw'r Gronfa wedi ymrwymo i unrhyw warantau ariannol sydd angen cyfrifo amdanynt fel offerynnau ariannol.

Nodyn 17d – Prisiad gwerth teg yr offerynnau ariannol sy'n cael eu cario

Mae prisiad yr offerynnau ariannol wedi'i ddosbarthu'n dri lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwydd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

Lefel 1

Offerynnau ariannol Lefel 1 yw rhai ble mae eu gwerth teg wedi'i bennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rwymedigaethau cyfwerth. Mae cynhyrchion sydd wedi'u dosbarthu fel rhai Lefel 1 yn cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, gwarantau sefydlog wedi'u dyfynnu, gwarantau cysylltiedig â mynegai wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned. Mae'r buddsoddiadau a restrir yn cael eu harddangos am y pris a gynigwyd amdanynt. Mae gwerth y pris a gynigir am y buddsoddiad yn seiliedig ar ddyfyniad marchnad cynigion y farchnad stoc dan sylw.

Lefel 2

Mae offerynnau ariannol Lefel 2 yn rhai ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael; er enghraifft, pan fo offeryn yn cael ei fasnachu mewn marchnad nad yw'n cael ei hystyried yn un weithredol, neu pan ddefnyddir technegau prisio i bennu gwerth teg a ble mae'r technegau hyn yn defnyddio mewnbwn sy'n seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiadau data'r farchnad.

Lefel 3

Mae offerynnau ariannol Lefel 3 yn rhai ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ganfyddiadau data'r farchnad. Gallai offerynnau o'r fath gynnwys buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu a chronfa o gronfeydd rhagfantoli, sy'n cael eu prisio gan ddefnyddio technegau prisio amrywiol sy'n gofyn am ddyfarniadau sylweddol wrth bennu rhagdybiaethau priodol.

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratoir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisio'r IFRS ac US GAAP.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi dadansoddiad o asedau ag ymrwymadau ariannol y gronfa pensiwn wedi'i grwpio i Lefelau 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel sy'n cael ei rhagweld fel gwerth teg.

Nodyn 17d – Prisiad gwerth teg yr offerynnau ariannol sy'n cael eu cario (parhad)

	Pris y farchnad a ddyfynnwyd	Gan ddefnyddio canfyddiadau am y mewnbwn	Gan ddefnyddio mewnbwn sylweddol ble na cheir canfyddiad ohono	Cyfanswm
Gwerth ar 31 Mawrth 2017	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	£'000
	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol				
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	822,831	864,788	110,076	1,797,695
Benthyciadau a derbyniadau	70,811	0	0	70,811
Cyfanswm yr asedau ariannol	893,642	864,788	110,076	1,868,506
Ymrwymadau ariannol				
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	0	(235)	0	(235)
Costau ymrwymadau ariannol	(4,038)	0	0	(4,038)
Cyfanswm yr ymrwymadau ariannol	(4,038)	(235)	0	(4,273)
Asedau ariannol net	889,604	864,553	110,076	1,864,233

	Pris y farchnad a ddyfynnwyd	Gan ddefnyddio canfyddiadau am y mewnbwn	Gan ddefnyddio mewnbwn sylweddol ble na cheir canfyddiad ohono	Cyfanswm
Gwerth ar 31 Mawrth 2016	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	£'000
	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol				
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	633,363	739,944	81,540	1,454,847
Benthyciadau a derbyniadau	74,901	0	0	74,901
Cyfanswm yr asedau ariannol	708,264	739,944	81,540	1,529,748
Ymrwymadau ariannol				
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	0	(64)	0	(64)
Costau ymrwymadau ariannol	(4,279)	0	0	(4,279)
Cyfanswm yr ymrwymadau ariannol	(4,279)	(64)	0	(4,343)
Asedau ariannol net	703,985	739,880	81,540	1,525,405

NODYN 18 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Risg a rheoli risg

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymadau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r Gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau fel ei fod yn cadw lefel risg y farchnad y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r Gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y gronfa bensiwn.

Y pwyllgor pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae rhaglen reoli risg gyffredinol y Gronfa Bensiwn yn canolbwyntio ar ba mor anwadal yw'r marchnadoedd ariannol ac yn ceisio isafu'r effeithiau andwyol posib ar yr adnoddau sydd ar gael i dalu pensiynau. Mae'r Datganiad Strategaeth Gyllido a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ar y cyd ag Actiwari'r Gronfa yn nodi sut bydd hydaledd a risg yn cael eu rheoli mewn perthynas ag ymrwymadau. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cynhyrchu'r Datganiad Strategaeth Gyllido hwn gan roi ystyriaeth gyffredinol i lefel y risg yn y polisi buddsoddi sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi a gyhoeddwyd dan Reoliad 12 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (y Rheoliadau Buddsoddi) a'r polisi cyllido sydd wedi'i nodi yn y Datganiad hwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n parhau i adolygu'r ddwy ddogfen i sicrhau bod y proffil risg cyffredinol yn parhau'n briodol.

a) Risg y farchnad

Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r Gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r Gronfa o fewn paramedrau derbyniol, tra gwneud y mwyaf o'r enillion a geir wrth gymryd risg.

Yn gyffredinol, rheolir anweddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Cyngor a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r Gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol
- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

Risg prisiau eraill

Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'r sawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae hyn yn codi o fuddsoddiadau a ddelir gan y Gronfa ble bo ansicrwydd ynghylch eu pris yn y dyfodol. Mae pob buddsoddiad gwarantau yn cyflwyno risg o golli cyfalaf. Ac eithrio cyfranddaliadau a werthir am bris is, pennir y risg fwyaf sy'n deillio o offerynnau ariannol gan werth teg yr offerynnau ariannol. Mae'r colledion posib yn sgil cyfranddaliadau a werthir am bris is yn anghyfyngedig.

Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa'n lliniaru'r perygl pris hwn trwy amrywio a dewis gwarantau a theclynnau ariannol eraill sy'n cael eu monitro gan y Cyngor i sicrhau ei fod o fewn y cyfyngiadau a nodir yn strategaeth y Gronfa fuddsoddi.

Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol a'r enillion ar fuddsoddiadau a ddisgwyllir yn ystod y flwyddyn ariannol, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r Cyngor wedi pennu bod y newidiadau a ganlyn yn risg pris y farchnad yn rhesymol bosib ar gyfer cyfnod adrodd 2016/17.

Tud. 48

NODYN 18 – NATUR A GRADDFFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gan ddilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol ar enillion ar fuddsoddiadau, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi y Gronfa, mae newidiadau pris posib wedi cael eu pennu ar gyfer y gwahanol gategorïau o asedau sy'n cael ei ddal gan y Gronfa. Mae'r cyfraddau i'w defnyddio ar gyfer categorïau asedau'r Gronfa fel a ganlyn:

Math o ased	Newid posib yn y farchnad (+/-)	
	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
	%	%
Ecwiti'r DU	9.3	15.8
Ecwiti Byd-eang	9.3	18.4
Ecwiti Preifat	9.3	28.5
Incwm Sefydlog	1.5	2.9
Buddsoddiadau Amgen (Isadeiladedd)	6.5	11.3
Eiddo	2.3	14.2
Arian	0.0	0.0
Y Gronfa Gyfan		12.8

Mae'r anweddolrwydd a nodir uchod yn gyson ag un gwyrriad safonol yn newid gwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid arian tramor a chyfraddau llog, yn parhau'r un fath.

Pe byddai pris buddsoddiadau'r Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid ym mhris y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2017 £'000	Canran newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti'r DU	338,486	15.8	391,966	285,005
Ecwiti Byd-eang	970,060	18.4	1,148,552	791,569
Ecwiti Preifat	82,023	28.5	105,399	58,646
Incwm sefydlog	236,625	2.9	243,487	229,763
Buddsoddiadau Amgen (Isadeiladedd)	28,053	2.9	28,867	27,240
Eiddo	142,448	11.3	158,545	126,351
Arian	49,248	14.2	56,241	42,255
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	1,846,943	12.8	2,083,352	1,610,534

* Mae gwerth yr holl gronfa yn y tabl uchod yn seiliedig ar 12.8% yn hytrach cyfanswm y mathau asedau unigol.

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2016 £'000	Canran newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti'r DU	266,796	9.25	291,475	242,118
Ecwiti Byd-eang	749,931	9.25	819,300	680,563
Ecwiti Preifat	66,278	9.25	70,613	61,943
Incwm sefydlog	198,845	1.48	201,788	195,902
Buddsoddiadau Amgen (Isadeiladedd)	15,262	6.54	16,260	14,264
Eiddo	157,734	2.33	161,409	154,059
Arian	42,631	0.01	42,954	42,946
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	1,497,477		1,603,799	1,391,795

Risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy'n cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgîl newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y Gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

NODYN 18 – NATUR A GRADDFFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r Gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2016 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

Math o ased	Fel ar 31 Mawrth 2016 £'000	Fel ar 31 Mawrth 2017 £'000
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth	20,434	15,375
Balansau arian parod	42,631	49,248
Gwarantau llog sefydlog	198,845	236,625
Cyfanswm	261,910	301,248

Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifrwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2017 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion +1% -1% £'000 £'000	
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	15,375	154	(154)
Balansau arian parod	49,248	492	(492)
Gwarantau llog sefydlog*	236,625	(1,538)	1,538
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	301,248	(892)	892

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2016 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion +1% -1% £'000 £'000	
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	20,434	204	(204)
Balansau arian parod	42,631	426	(426)
Gwarantau llog sefydlog*	198,845	1,869	(1,869)
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	261,910	2,499	(2,499)

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

Minimol fyddai'r effaith wedi bod o newid 1% mewn cyfraddau llog ar y llog a dderbyniwyd gan mai 0.53% oedd cyfartaledd y gyfradd llog a dderbyniwyd ar arian yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfanswm llog o £132,567 am y flwyddyn.

Nid yw cynnydd 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio'r llog a dderbynnir ar warantau llog sefydlog ond byddai'n lleihau'r gwerth teg, fel y dangosir yn y tablau uchod. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio y gwerth arian / arian a'u cyffelyb ond byddai'n effeithio'r llog a dderbynnir ar y balansau. Mae newidiadau i werth teg yr asedau ac incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau yn cael effaith ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion ond fel y nodir uchod nad yw'n cael effaith sylweddol ar y Gronfa.

Risg arian tramor

Mae risg arian yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa'n agored i risg arian ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y Gronfa (£UK). Mae'r Gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £UK.

NODYN 18 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae gan y Gronfa ymrwymïadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith mewn arian tramor, (€214 miliwn a \$88.6 miliwn). Mae'r ymrwymïadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymïadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 25. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymïadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r Gronfa wedi'i chyllido'n llawn.

Mae'r Gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymïadau ers 2005 felly mae'r ymrwymïadau wedi'i gydbwysu dros gyfnod maith o amser.

Mae cyfradd cyfnewid arian y Gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi pa mor agored yw'r Gronfa i newidiadau mewn arian fel ar 31 Mawrth 2017 ac fel ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol:

Agored i newidiadau mewn arian – math o ased	Fel ar 31 Mawrth 2016 £'000	Fel ar 31 Mawrth 2017 £'000
Ecwiti tramor a byd-eang	749,931	970,060
Incwm Sefydlog byd-eang	198,845	236,625
Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac isadeiladedd)	81,540	110,076
Eiddo tramor	3,116	3,636
Arian dramor	0	0
Cyfanswm yr asedau tramor	1,033,432	1,320,397

Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddi data hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi y Gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael eu cyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r Gronfa.

Ystyrir bod newid o 10% yn yr arian tramor yn rhesymol yn seiliedig ar ddadansoddiad ymgynghorwyr buddsoddi analytig y Gronfa o newidiadau hanesyddol hirdymor yn y cyfraddau cyfnewid ar ddiwedd y mis dros gyfnod treigl o 36 mis hyd at 31 Mawrth 2017. Y canran cyfatebol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2016 oedd 6%. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau llog, yn parhau'n gyson.

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2017 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2017 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd £'000	Gwerth ar leihad £'000
Ecwiti tramor a byd-eang	970,060	1,067,066	873,054
Incwm Sefydlog byd-eang	236,625	260,288	212,963
Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac isadeiladwaith)	110,076	121,084	99,068
Eiddo tramor	3,636	4,000	3,273
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	1,320,397	1,452,438	1,188,358

NODYN 18 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2016 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd £'000	Gwerth ar leihad £'000
Ecwiti tramor a byd-eang	749,931	794,521	705,341
Incwm Sefydlog byd-eang	198,845	210,668	187,022
Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac is adeiladwaith)	81,540	86,388	76,692
Eiddo tramor	3,116	3,301	2,931
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	1,033,432	1,094,878	971,986

b) Risg credyd

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrth barti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r Gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymadau'r Gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y Gronfa'n agored i beth risg credyd. Fodd bynnag, mae dewis gwrth bartion, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

Gweler isod meincnod ar gyfer y ganran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

Rheolwr Buddsoddi	Canran o'r Portffolio
BlackRock	29.5%
Fidelity	19.0%
Insight	15.0%
Partners Group	7.5%
Eiddo (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock)	10.0%
Veritas	19.0%

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil yr amrywiol bolisiau yswiriant a ddelir i ymdrin â gwrth bartion sy'n diffygdlu.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adnau Arian, mae'r cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwarged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwarged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw unrhyw arian gwarged yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor. Am fod y buddsoddiadau tymor byr yn cael eu gwneud mewn enw Cyngor Gwynedd maent yn dangos yn llawn ar fantolen y Cyngor. Elfen y Gronfa Bensiwn o'r buddsoddiadau tymor byr a'r adnau arian ar 31 Mawrth 2017 oedd £15.7m (£25.0m ar 31 Mawrth 2016).

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuo y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddosbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o gronfeydd yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd blaenllaw. Cred y Cyngor ei fod wedi rheoli pa mor agored ydyw i risg credyd a dim ond un profiad o ddifffygdlu neu adneuo nad oes modd eu hadennill sydd ganddo, sef pan roddwyd Banc Heritable yn nwylo'r gweinyddwyr yn 2008. Gweler manylion llawn yn Nodyn 27.

NODYN 18 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cyflogwyr y Gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r Gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i leihau'r risg o golledion ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymadau pensiwn pe byddai'n ymadael â'r Gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 26 mae tri chyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymadau eraill ar y Gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraid yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r Gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 Rheoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008, rhwng y prisiad a gynhelir bob tair blynedd.

c) Risg hylifedd

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r Gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y gronfa bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymadau i dalu pensiwnwyr; ac i fodloni ymrwymadau buddsoddi.

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddol system llif arian sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dyld eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddeler yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dros dro yn cael ei fuddsoddi gan yr Awdurdod Gweinyddol yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grŵp yr Awdurdod Gweinyddol. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleuster hwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur fyddai'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r Gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod hwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Ar 31 Mawrth 2017, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £158m, sy'n cynrychioli 8.5% o gyfanswm asedau'r Gronfa (31 Mawrth 2016: £143m, a oedd yn cynrychioli 9.4% o gyfanswm asedau'r Gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r holl rwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2017 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2016.

Risg ail ariannu

Y risg allweddol yw y bydd y Cyngor wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o offerynnau ariannol ei gronfa bensiwn pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Cyngor unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

NODYN 19 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008, mae actiwari'r Gronfa yn ymgymryd â phrisiad bob tair blynedd er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2016.

Disgrifiad o'r Polisi Cyllido

Amlinellir y polisi cyllido yn Natganiad Strategaeth Cyllido (FSS), yr Awdurdod Gweinyddu, gafodd ei adolygu fel rhan o Brisiad 2016.

Mae elfennau allweddol y polisi cyllido fel a ganlyn:

- sicrhau hydaledd hirdymor y Gronfa dros y tymor hir. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o arian ar gael i gwrdd a buddion holl aelodau/dibynyddion wrth iddynt ddod daladwy.
- sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn weddol sefydlog os yw'n rhesmol i wneud hynny.
- lleihau'r cyfraniadau ariannol tymor hir mae'r cyflogwyr yn dalu i'r Cynllun drwy adnabod y cysylltiad rhwng asedau a rhwymedigaethau a mabwysiadu strategaeth fuddsoddi sy'n cydbwysu risg ac elw.
- i adlewyrchu nodweddion gwahanol y gwahanol gyflogwyr i bennu cyfraddau cyfraniadau drwy gael strategaeth cyllido clir a thryloyw sy'n dangos sut y gall pob cyflogwr gyfarfod a'u rhwymedigaethau dros y blynyddoedd i ddod.
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn benodol i'r rhai sy'n talu'r dreth cyngor yn sgil cyflogwyr yn diffygdalu ei rwymedigaethau pensiwn.

Amlinella'r FSS sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwysu'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

O ran cyflogwyr oedd â chyfamod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi yn is na'r gyfradd ddamcaniaethol sydd ei hangen i sicrhau bod eu cyfran nhw o'r Gronfa yn dychwelyd i gael ei ariannu'n llawn dros 20 mlynedd os yw'r rhagdybiaethau prisio yn cael eu cadarnhau. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymadau asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y FSS, fod yna siawns gwell na 66% o hyd y bydd y Gronfa yn dychwelyd i ariannu'n llawn dros y 20 mlynedd.

Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prisiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf

Cynhaliwyd y prisiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 62 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar 31 Mawrth 2016. Datgelodd y prisiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u prisio'n £1,525 miliwn ar 31 Mawrth 2016, yn ddigon i dalu 91% o'r ymrwymadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y diffyg ym mhrisiad 2016 oedd £145 miliwn.

Gosodwyd allan cyfraniad pob cyflogwr yn y prisiad, gyda'r nod o gyflawni cyllido llawn o fewn gorwel amser a thebygolrwydd a fesurwyd yn unol â'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Cafodd cyfraniadau cyflogwyr unigol am y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2020 eupennu yn unol a pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido.

Prif Ragdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymadau

Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad prisio, dyddiedig 31 Mawrth 2017.

Dull

Aseswyd yr ymrwymadau drwy ddefnyddio dull buddion cronedig sy'n ystyried aelodaeth bensiynadwy hyd at y dyddiad prisio, ac yn ystyried cynnydd disgwylidig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwylidig cynharach o adael aelodaeth bensiynadwy.

Rhagdybiaethau

Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa o'u gwerth ar y farchnad.

NODYN 19 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2016 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau Ariannol	31 Mawrth 2016
Cyfradd disgownt	3.9%
Cynnydd mewn cyflog	2.1%
Chwyddiant prisiau / Cynnydd mewn pensiwn	2.1%

Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwyliad oes yn seiliedig ar *VitaCurves* y *Gronfa* gyda gwelliannau yn unol a model CMI 2013, sy'n tybio bod y gyfradd bresennol o welliannau wedi cyrraedd y brig a bydd yn cydgyfeirio at gyfradd hirdymor o 1.25% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwyliad oes cyfartalog yn y dyfodol i oed 65 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau marwolaeth yn 65 mlwydd oed	Gwryw Blynnyddoedd	Benyw Blynnyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	22.0	24.2
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2016)	24.0	26.4

Mae copiâu o adroddiad Prisiad 2016 a'r Datganiad Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwn.org.uk

Profiad yn ystod y Cyfnod ers 31 Mawrth 2016

Ers y prisiad ffurfiol diwethaf, mae'r gwir ddychweliadau ar fondiau wedi disgyn gan gynyddu gwerth y rhwymedigaethau. Mae'r effaith hyn wedi cael ei wrthbwyso i raddau gan enillion cryf yr asedau. Yn fras, mae'r ddau ddigwyddiad wedi canslo'i gilydd allan, o ran yr effaith ar y sefyllfa cyllido ar 31 Mawrth 2017.

Cynhelir y prisiad actiwaraid nesa fel ar 31 Mawrth 2019. Adolygir y Datganiad Strategaeth Cyllido ar yr un adeg.

NODYN 20 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido bob tair blynedd, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r Gronfa pensiwn, yn seiliedig ar IAS19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddarau rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r gwerthusiad yn cael ei ymgymryd yn yr un modd a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu i'r Gronfa, ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried rhwymedigaethau talu pensiynau na buddion eraill yn y dyfodol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddarau'r rhagdybiaethau actiwaraid (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 19) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau IAS19, FRS17 ac FRS102 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y Gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi prisiao buddion salwch a marwolaeth yn unol ag IAS19.

Roedd gwerth cyfredol actiwaraid y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo ar 31 Mawrth 2017 a 2016 fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
Rhagdybiaeth	£'m	£'m
Aelodau Gweithredol	1,285	1,214
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	388	246
Cyfradd ddisgownt	747	514
Cyfanswm	2,420	1,974

Fel y nodir uchod mae'r ymrwymadau uchod wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar IAS19 ac felly maent yn wahanol i ganlyniadau'r prisiad cyllido bob tair blynedd a gynhaliwyd yn 2016 (gweler Nodyn 19) gan fod IAS 19 yn nodi cyfradd ddisgownt yn hytrach na chyfradd sy'n adlewyrchu cyfraddau'r farchnad.

Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer adroddiad IAS19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn:

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
Rhagdybiaeth	%	%
Chwyddiant/cyfradd cynnydd mewn pensiwn	2.2	2.4
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	4.2	2.4
Cyfradd ddisgownt	3.5	2.6

Defnyddiwyd yr un dybiaeth hirhoedledd fel ar gyfer asesu'r sefyllfa cyllido fel y dangosir yn Nodyn 19 uchod.

Mae'r rhagdybiaeth cymudiad yn caniatáu i bensiynwyr y dyfodol dewis cyfnewid pensiwn am arian parod di-dreth ychwanegol o hyd at 50% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth hyd at 31 Mawrth 2008 a 75% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth o 1 Ebrill 2008.

Mae'r y sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur rhwymedigaethau wedi'u nodi isod

Sensitifrwydd i'r Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2017	Amcan % y Cynnydd mewn Rhwymedigaethau	Amcan Swm Ariannol
	%	£m
0.5% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant / pensiwn	8	189
0.5% y.f. o gynnydd mewn cyflog	3	73
0.5% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt	11	267

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r tybiaeth hirhoedledd. At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%.

NODYN 21 – ASED AU CYFREDOL

2015/16		2016/17
£'000		£'000
932	Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr	820
3,221	Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr	2,845
3,901	Gwerthoedd trosglwyddo a dderbynnir (rhai sy'n ymuno)	0
3,399	Amrywiol ddyledwyr	1,944
11,453	Cyfanswm dyledwyr	5,609
20,434	Arian	15,375
31,887	Cyfanswm	20,984

Dadansoddiad o ddyledwyr

2015/16		2016/17
£'000		£'000
2,073	Cyngor Gwynedd	2,352
732	Cyrff llywodraeth ganolog	560
5,631	Awdurdodau lleol eraill	1,209
3	Cyrff GIG	3
3,014	Endidau ac unigolion eraill	1,485
11,453	Cyfanswm	5,609

NODYN 22 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

2015/16		2016/17
£'000		£'000
1,714	Amrywiol gredydwy	2,591
27	Gwerthoedd trosglwyddo sy'n daladwy (rhai sy'n ymadael)	282
2,538	Buddion sy'n daladwy	1,216
4,279	Cyfanswm	4,089

Dadansoddiad o gredydwy

2015/16		2016/17
£'000		£'000
901	Cyngor Gwynedd	1,051
43	Cyrff llywodraeth ganolog	37
1	Awdurdodau Lleol eraill	138
19	Cyrff GIG	58
3,315	Endidau ac unigolion eraill	2,805
4,279	Cyfanswm	4,089

NODYN 23 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2016	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Clerical Medical	2,936	3,349
Equitable Life	258	229
Standard Life	51	53
Cyfanswm	3,245	3,631

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r tri rheolwr fel a ganlyn:

	2015/2016	2016/2017
	£'000	£'000
Clerical Medical	526	561
Equitable Life	0	0
Standard Life	1	0
Cyfanswm	527	561

NODYN 24 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gref rhwng y Cyngor a'r gronfa bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,008,589 (£1,075,225 yn 2015/16) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r gronfa bensiwn a chyfrannodd £17.63m tuag at y Gronfa yn 2016/17 (£17.31m yn 2015/16). Ar ddiwedd y flwyddyn £2.35m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa (gweler Nodyn 21) yn bennaf mewn perthynas â chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2017 a £1.05m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor (gweler Nodyn 22) yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau gan y Cyngor.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2016/17, roedd y Gronfa yn derbyn llog o £132,567 (£147,611 yn 2015/16) gan Gyngor Gwynedd.

Llywodraethu

Roedd dau aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2016/17 (yr aelodau pwyllgor T.O. Edwards a P. Jenkins). Yn ogystal, mae'r aelodau pwyllgor T.O. Edwards, S. Glyn, P. Jenkins, H.E. Jones, W.T. Owen, a P.Read yn aelodau gweithredol o'r gronfa pensiwn.

Roedd un aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2016/17 (yr aelod S.Warnes). Yn ogystal, mae'r aelodau Bwrdd A.W. Deakin, V. Halloran, A.L Lloyd Evans, O. Richards and H. Trainor yn aelodau gweithredol o'r gronfa pensiwn.

Staff Rheoli Allweddol

Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn eithrio awdurdodau lleol rhag gofynion datgelu staff rheoli allweddol IAS24, ar y sail bod y gofynion datgelu ar gyfer tal swyddogion a lwfansau aelodau yn y Cod yn bodloni gofynion datgelu staff rheoli allweddol IAS24. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Gweler y dadleniadau gofynnol yng nghyfrifon Cyngor Gwynedd.

NODYN 25 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

	Cyfanswm ymrwymadau €'000	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2016 €'000	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2017 €'000
P.G. Direct 2006	20,000	776	776
P.G. Global Value 2006	50,000	3,477	3,477
P.G. Secondary 2008	15,000	1,960	1,960
P.G. Global Value 2011	15,000	5,044	3,372
P.G. Global Infrastructure 2012	40,000	22,005	15,894
P.G. Direct 2012	12,000	1,813	1,181
P.G. Global Value 2014	12,000	7,119	4,638
P.G Direct 2016	50,000	18,202	34,373
Cyfanswm Ewro	214,000	60,396	65,671
	\$'000	\$'000	\$'000
P.G. Emerging Markets 2011	7,000	2,078	1,623
P.G Secondary 2015	38,000	34,804	32,723
P.G Direct Infrastructure 2015	43,600	42,111	35,219
Cyfanswm Doleri	88,600	78,993	69,565

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at y Grŵp Partners, mae'r rheolwr buddsoddi yn buddsoddi mewn meysydd 'amgen' (ecwiti preifat ac is adeiladwaith) ar ran y Gronfa.

Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

NODYN 26 - ASED AU WRTH GEFN

Mae tri o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y gronfa pensiwn ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn diffygdlu.

NODYN 27 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

a) Amhariadau am ddyledion drwg ac amheus

Fel y esbonnir yn Nodyn 5 nid oes unrhyw amhariad wedi ei gwneud ar gyfer dyledion drwg ac amheus.

b) Amhariad yr adneuo ym Manc Gwlad yr Iâ

Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Roedd £565,200 o'r buddsoddiad hwnnw'n perthyn i'r gronfa bensiwn. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Derbyniodd y Cyngor ddychweliad o £3,938,407, sef 98% gan y gweinyddwyr hyd at 31 Mawrth 2017.

NODYN 28 – CYHOEDDIADAU'R GRONFA BENSIWN

Cynhyrchir adroddiad manwl ychwanegol ynghylch y Gronfa Bensiwn. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyfrifon y Gronfa yn ogystal â gwybodaeth bellach ynglŷn â gweithgareddau gweinyddu a buddsoddi. Mae'n cynnwys y dogfennau canlynol:

Datganiad Egwyddorion Buddsoddi

Datganiad Strategaeth Gyllido

Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiaid a'r Drefn Llywodraethu

Datganiad Polisi Cyfathrebu

Gellir cael copïau ar safle we'r Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwngwynedd.org.uk ar dudalen buddsoddiad neu drwy gysylltu â Mrs Caroline Roberts ar 01286 679128.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – **Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Cyhoeddwyd: Medi 2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru ar infoofficer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi **adroddiad archwilio diamod** ar eich datganiadau ariannol yn amodol ar ddatrys materion rhagorol a nodir ar dudalen pedwar yn foddhaol. Nid oes unrhyw faterion i'w hysbysu chi cyn eu cymeradwyaeth.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	4
Canlyniadau archwilio	5
Argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol 2016-17	7
Annibyniaeth a gwrthrychedd	7

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Drafft	8
Atodiad 2 – Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd a Chronfa Pensiwn Gwynedd	11
Atodiad 3 – Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16	13

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
- 2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr fod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
- 3 Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gronfa Bensiwn Gwynedd yw £18,624k ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
- 4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
- 5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer 2016-17, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

- 6 Rydym erbyn hyn wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth. Ar y dyddiad y cyflwynwyd yr adroddiad hwn, roedd y canlynol heb eu cwblhau:
 - Ein profion gan gynnwys profi data aelodaeth sylfaenol, yamgweddiad at uwchraddio mewn perthynas â'r prisiad tair blynedd, profion siwrneli ac adolygu cyfraniadau cyflogwyr a wnaed o fewn 19 diwrnod o ddiwedd y mis;
 - Ein cwblhad o'r adolygiad o adroddiad blynyddol a chyfrifon; a
 - Ein hadolygiadau sicrwydd ansawdd a phartneriaid.
- 7 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r rheolwr buddsoddi ar y 13 Medi 2017 a'i gyfathrebu i'r Swyddog S151 yn nes ymlaen.

Adroddiad archwilio arfaethedig

- 8 Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi **adroddiad archwilio diamod** ar y datganiadau ariannol yn amodol ar ddatrys materion rhagorol uchod yn foddhaol

ac unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.

9 Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**.

Canlyniadau archwilio

Camddatganiadau nas cywirwyd

10 Nodwn isod un camddatganiad a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau heb eu cywiro. Gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiad hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau dros beidio â'u cywiro.

- **Barniadol – Prisiadau Buddsoddiad – Eiddo ac Ecwiti Preifat:** Datblygwyd disgwyliad annibynnol ar gyfer priso'r cronfeydd eiddo a gedwir gan Gronfa Pensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y datganiad cyfrifon drafft, gan gymryd y Gwerth Asedau Net a hyblygu meincnod eiddo priodol i'w gyflwyno i ddiwedd y flwyddyn. Nododd ein profion fod gorddatganiad barniadol ar yr eiddo a buddsoddiadau ecwiti preifat (Partneriaid a UBS) o £ 1,421k o'i gymharu â chyfrifiadau'r rheolwyr.

Camddatganiadau a gywirwyd

11 Nid oes unrhyw gamddatganiadau a gywirwyd yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt.

Risgiau Sylweddol

Risg archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
Rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau Mae risg y bydd rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau'n bodoli ym mhob endid. Gan nad oes modd rhagweld sut y byddai sefyllfa o'r fath yn codi, mae'n cael ei ystyried yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]	Perfformiodd fy nhîm archwilio y profion canlynol i fynd i'r afael â'r risg sylweddol o ran rheoli gorchymyn rheolaethau: <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb cofnodion siwrneli ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dadansoddiadau data gwell i ddadansoddi poblogaeth y cyfnodolion cyfan ar gyfer nodweddion o ddiddordeb;• adolygu dyluniad a gweithrediad rheolaethau dros gofnodion siwrneli i'r cyfrifylfr ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu;;• amcangyfrifon cyfrifo wedi'u hadolygu ar gyfer tystiolaeth o ragfarn; a

Risg archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
	<ul style="list-style-type: none"> gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i gwrs busnes arferol, gan gynnwys y rhai â phartïon cysylltiedig. <p>Ni nodwyd unrhyw faterion, ac eithrio argymhelliad rheolaeth fewnol a godwyd. Gweler Atodiad 3.</p>
<p>Prisio buddsoddiadau</p> <p>Mae'r Gronfa'n gwneud rhyw ddefnydd o fuddsoddiadau mewn cyfryngau buddsoddi megis cronfeydd ecwiti preifat.</p> <p>Mae anwadalrwydd y farchnad yn codi cwestiynau ynglŷn â sut i brisio cronfeydd ecwiti preifat. Fel arfer, byddai disgwyl i resymoldeb prisiad rheolwyr y Gronfa gael ei asesu trwy ei gymharu â'r archwiliad o gyfrifon diweddaraf y cronfeydd, wedi'u haddasu ar gyfer symudiadau arian parod dilynol (buddsoddiadau a dosraniadau) rhwng y cyfrwng buddsoddiad cyfunol a'r buddsoddwyr. Fodd bynnag, mae anwadalrwydd y farchnad yn golygu efallai y bydd cymhariaeth o'r fath yn amhriodol, yn enwedig os oes llawer o amser rhwng archwilio'r cyfrifon diweddaraf a diwedd blwyddyn y Gronfa.</p>	<p>Cynhaliodd fy nhîm archwilio y profion canlynol i fynd i'r afael â'r risg sylweddol mewn perthynas â buddsoddiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> profwyd sut mae rheolaethau yn y Gronfa yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith i sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu prisio'n gywir; adolygwyd yr adroddiadau rheoli mewnol i gael dealltwriaeth o'r amgylchedd rheoli wrth i'r rheolwyr buddsoddi a'r rheolwyr adolygu ystyried yr adroddiadau hyn; cawsom gadarnhad gan drydydd partïon o falansau buddsoddi ar 31 Mawrth 2016; dewiswyd sampl o fuddsoddiadau ac ail-gyfrifo'r prisiadau; a ymgysylltwyd â'n harbenigwyr offerynnau ariannol i sicrhau bod ein dull profi yn briodol o ystyried strategaeth fuddsoddi a phortffolio penodol y Gronfa. <p>Dim materion wedi eu nodi.</p>
<p>Data Brisio Tair Blynedd</p> <p>Yn ystod y flwyddyn, mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi cael ei brisio bob tair blynedd gyda dyddiad effeithiol ar 31 Mawrth 2016 yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2013. Mae'r Awdurdod yn darparu nifer fawr o ddata mewn perthynas â chyrff a dderbynnir gan gynnwys eu cyfran o asedau pensiwn a rhwymedigaethau i gyflawni'r prisiad tair blynedd hwn.</p> <p>Mae risg bod y data a roddir i'r actiwari ar gyfer yr ymarferiad prisio yn anghywir a bod y diffygion hyn yn effeithio ar y ffigurau</p>	<p>Perfformiodd fy nhîm archwilio y profion canlynol i fynd i'r afael â'r risg sylweddol o amgylch y Data Brisio Tair Blynedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> nodwyd a profwyd dyluniad a gweithrediad y rheolaethau o ran trosglwyddo'r data; wedi adolygu ac arolygu a phrofi'r prosesau ar gyfer glanhau'r data; ymgysylltu â'r actiwari i drafod y data a ddefnyddiwyd yn y prisiad, a; wedi adolygu'r adroddiadau data gan yr actiwari. <p>Mae profion yn parhau heb unrhyw broblemau a nodwyd hyd yma, fodd bynnag, mae deall uwchraddio data a</p>

Risg archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
actiwaraidd yn natganiad ariannol y cyrff cyfrifon.	phrofi cywirdeb sylfaenol data aelodaeth mewn perthynas â'r prisiad tair blynedd yn parhau i fod yn rhagorol ac mae arbenigwyr yn ei gwblhau.

Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

- 12 Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:
- Nid oes gennym bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu na'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol.
 - Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.
 - Ni thrafodwyd ac ni hysbyswyd y rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.
 - Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu chi amdanynt.
 - Ni nodwyd gwendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol. Fodd bynnag, rydym wedi codi un arsylwi rheolaeth yn Atodiad 3. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Rheolwr Buddsoddi ar 13 Medi 2017 ac mae'r rhain wedi eu rhannu wedyn gyda'r Swyddog S151.
 - Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17

- 13 Nid oes unrhyw argymhellion newydd yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol, ac eithrio argymhellion diwygiedig yn cael eu codi o ganlyniad i waith archwilio ariannol 2015-16 dilynol, gweler isod.

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

- 14 Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn **Atodiad 3**. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad 2016-17. Os bydd unrhyw gamau gweithredu yn weddill, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

Annibyniaeth a gwrthrychedd

- 15 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
- 16 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydb berthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chronfa Bensiwn Gwynedd sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Drafft

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

28 Medi 2017

Annwyl Syr,

Sylwadau yn ymwneud â datganiadau ariannol 2016-17

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt. Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi:

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

1. Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
2. Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.
3. Rydym yn cadarnhau bod y Cynllun yn Gynllun Pensiwn Cofrestredig. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw reswm pam y dylai statws treth y Cynllun newid.
4. Nid ydym wedi cyflwyno unrhyw adroddiadau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau nac yr ydym yn ymwybodol o unrhyw adroddiadau o'r fath wedi'u gwneud gan unrhyw un o'n hymgynghorwyr. Rydym yn cadarnhau nad ydym yn ymwybodol o unrhyw gyfraniadau hwyr na thoriadau i'r amserlen dalu/amserlen y cyfraniadau a gododd yr oeddem yn eu hystyried nad oedd angen eu hadrodd. Rydym hefyd yn cadarnhau nad ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion eraill sydd wedi codi a fyddai'n gofyn am adroddiad i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.
5. Ni chafwyd unrhyw gyfathrebiadau eraill gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau na chyrrff rheoleiddio eraill yn ystod blwyddyn y cynllun neu wedi hynny ynghylch materion o ddifffyg cydymffurfiaeth ag unrhyw ddyletswydd gyfreithiol. Rydyn ni wedi tynnu eich sylw at bob gohebiaeth a nodiadau cyfarfodydd gyda rheoleiddwyr.

Atodiad 1

6. Rydym yn cadarnhau nad oes unrhyw ymddiriedolwr o'r Cynllun, o dan adran 27 Deddf Pensiynau 1995, yn gysylltiedig â, neu'n gysylltiedig â Deloitte LLP, a fyddai'n golygu bod Deloitte LLP yn anghymwys i weithredu fel archwilydd i'r Cynllun.
7. Ni fu unrhyw newidiadau i reolau'r Cynllun yn ystod y flwyddyn a hyd at y dyddiad cyfredol.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol ichi:

Mynediad llawn i'r canlynol:

1. Mynediad llawn i'r canlynol:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani at ddiben yr archwiliad;
 - mynediad anghyfnygedig i staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, inni gael tystiolaeth archwilio ganddynt.
2. Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
3. Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gronfa Bensiwn Gwynedd ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.
4. Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
5. Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
6. Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.
7. Mae gwybodaeth aelodaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol yn gywir ac yn mynegi barn gwir a theg am aelodaeth y Gronfa Bensiwn.

Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol. Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Atodiad 1

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Sylwadau gan Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd ar 28 Medi 2017.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Yn gywir,

Llofnodwyd gan.....

Dafydd L Edwards

Pennaeth Cyllid

Cyngor Gwynedd

Dyddiad: 28 Medi 2017

Llofnodwyd gan:.....

Cynghorydd R Medwyn Hughes

Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Cyngor Gwynedd

Dyddiad: 28 Medi 2017

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd a Cronfa Bensiwn Gwynedd

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig

- Cyngor Sir Gwynedd; a
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon a datganiadau cyfrifeg Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Atodiad 2

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Gwynedd ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o trafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac o swm a gwarediad asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw, a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran
Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Medi 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 3

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad 2015-16 ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Rydym wedi gwneud gwaith dilynol ar rhain yn ystod archwiliad 2016-17 ac wedi cofnodi'r canlyniadau isod.

Nid yw Cyfrifon Dros Dro yn Cael eu Cysoni'n Ffurfiol

Argymhelliad y flwyddyn flaenorol	Argymhellir bod cyfrifon dros dro y Gronfa yn cael eu hadolygu bob mis.
Blaenoriaeth	Canolig
Canfyddiad 2015-16	Fe wnaethom nodi bod y cyfrif dros dro sy'n cael ei ddefnyddio i ddyrannu cyfraniadau'r cyflogai a chyflogwyr yn bron ddyddiol ac yn y cyfrif dros dro sy'n postio trafodion rhwng y Gronfa Bensiwn a Chyngor Gwynedd ddim yn cael eu cysoni'n ffurfiol a'u llofnodi fel ei baratowyd ac yna eu hadolygu ar wahân.
Ymateb y rheolwyr	Dim ymateb penodol wedi'i wneud oherwydd mae'r argymhelliad yn canolbwyntio'n bennaf ar adolygu siwrneli
Canfyddiad 2016-17	Nodwyd nad yw'r cyfrifon atal yn cael eu cysoni'n ffurfiol bob mis ar hyn o bryd.
Statws	Diwygiwyd yr argymhelliad: Argymhellir bod cyfrifon atal y Gronfa yn cael eu cysoni a'u hadolygu bob mis.
Ymateb y rheolwyr	Rydym yn fwriadau clirio, yn hytrach na chysoni'r cyfrif dros dro perthnasol ar sail wythnosol, yn hytrach na misol.

Awdurdodi Siwrneli

Argymhelliad y flwyddyn flaenorol	Argymhellir bod siwrneli yn cael eu hawdurdodi cyn eu postio.
Blaenoriaeth	Canolig
Canfyddiad 2015-16	Fe wnaethom nodi nad oes proses ar waith ar gyfer awdurdodi siwrneli. Mae rheolaeth mewn sefyllfa unigryw i gyflawni twyll oherwydd eu gallu i drin cofnodion cyfrifyddu a pharatoi datganiadau ariannol twyllodrus gan anwybyddu rheolaethau, ac felly mae'n ofynnol bod rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau yn ofynnol i fod yn risg tybiedig ar gyfer pob archwiliad a gynhelir o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol.
Ymateb y rheolwyr	Mae'r staff sy'n mynychu siwrneli ar lefel gyfrifol a bydd adolygiad o bob siwrnel yn cymryd lan amser rheoli, ond bwriadwn adolygu'r prosesu o siwrneli a bydd yn gwneud hynny mewn ymgynghoriad â Deloitte.

Atodiad 3

Canfyddiad 2016-17	Fe wnaethom nodi nad oes proses ar waith ar gyfer awdurdodi siwrneli cyn eu postio, fodd bynnag, rydym yn fodlon bod arolygon digonol yn cael eu cynnal gan reolwyr sy'n lliniaru'r risg o rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau.
Statws	Dd/g - Rhoddwyd yr argymhelliad ar waith.

Dylai buddsoddiadau gael eu cadw ar werth y farchnad

Argymhelliad y flwyddyn flaenorol	<p>Argymhellir fod buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu dal ar werth y farchnad ar yn y cyfriflyfr.</p> <p>Nodwyd fod y Gronfa yn dal buddsoddiadau yn y cyfriflyfr ar gost y llyfr, yn dibynnu ar set gymhleth o daenlenni i gysoni ac yn tarddu o werth diwedd blwyddyn y farchnad.</p>
Blaenoriaeth	Canolig
Canfyddiad 2015-16	Fe wnaethom nodi bod y Gronfa yn dal buddsoddiadau yn y cyfriflyfr ar gost llyfr, gan ddibynnu ar set gymhleth o daenlenni i gysoni a deillio gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn.
Ymateb y rheolwyr	Byddwn yn ystyried ymarferoldeb cofnodi gwerth y farchnad ar y cyfriflyfr. Nid yw gwerth y farchnad diwedd y flwyddyn yn tarddu o'r cysoniad. Mae'n tarddu o'r adroddiadau gan y ceidwad a'r rheolwyr buddsoddi. Mae cysoniad yn sicrhau fod cofnodion y cyfriflyfr yn gywir.
Canfyddiad 2016-17	Fe wnaethom nodi bod y Gronfa yn dal i fod â buddsoddiadau yn y cyfriflyfr ar gost llyfr, gan ddibynnu ar set gymhleth o daenlenni i gysoni a deillio gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn.
Statws	Ail-godi'r argymhelliad
Ymateb y rheolwyr	<p>Byddem weithredu'r argymhelliad yma pan bod y buddsoddiadau ecwiti wedi cael eu trosglwyddo i'r Pwl Cymru.</p> <p>Nid yw'r gwerth farchnad yn cael ei chyfrifo o'r cysoniad. Mae'n dod o adroddiadau'r ceidwad a'r rheolwyr buddsoddi. Mae'r cysoniad yn sicrhau bod y ffigurau ar y ledjer yn gywir.</p>

Gwella Rheolaethau Bancio

Argymhelliad y flwyddyn flaenorol	Argymhellir fod y cyfrif ewro yn dod yn rhan o system gyfrifeg eFinancials. Yn ychwanegol, argymhellir fod y cysoniadau banc yn cael eu paratoi a'u hadolygu mewn pryd.
Blaenoriaeth	Canolig

Atodiad 3

Canfyddiad 2015-16	Mae gan y Gronfa bedwar cyfrif banc. Nodwyd nad yw'r cyfrif banc ewro wedi ei osod ar system gyfrifeg eFinancials. Nodwyd hefyd yn Rhagfyr 2015, fod dau gyfrif banc wedi derbyn adolygiad cyn pryd (paratowyd ar 5 Ionawr 2016, gan adolygu ar 2 Chwefror 2016). Yn ychwanegol, nodwyd nad oedd un cysoniad cyfrif banc yn dangos unrhyw dystiolaeth o adolygiad a bod cysoniad cyfrif pellach ddim yn dangos unrhyw dystiolaeth iddo gael ei gymeradwyo ar gyfer ei baratoi na adolygu.
Ymateb y rheolwyr	Byddwn yn sicrhau fod yr holl gysoniadau banc yn cael eu hadolygu gan swyddog arall. Byddwn yn ymchwilio i ymarferoldeb dod a'r cyfrif Ewro ar y cyfriflyfr. Mae'r system banc yn gofyn fod tri swyddog yn prosesu trafodion, sy'n lleihau'r perygl o gamddefnyddio cronfeydd.
Canfyddiad 2016-17	Fe wnaethom nodi nad yw'r cyfrif banc ewro wedi'i sefydlu ar system gyfrifo eFinancials. Yn ychwanegol, fe wnaethom nodi nad yw cysoni misol yn cael ei wneud ar gyfer cyfrif banc ewro y cynllun pensiwn. Yn ychwanegol, nodom nad oedd gan ddau gyfrif banc dystiolaeth o adolygiad am gyfnod naw.
Statws	Diwygiwyd yr Argymhelliad: Argymhellir bod y cyfrif ewro yn dod i mewn i'r system gyfrifo eFinancials. Yn ogystal, argymhellir bod y cyfrif banc Ewro yn cael ei gysoni'n rheolaidd a bod adolygiad o'r gysoni yn digwydd yn amserol a bod arwyddion a dyddiad yr adolygiad yn dangos tystiolaeth glir o'r adolygiad.
Ymateb y rheolwyr	Rydym yn dal i ymchwilio am ffordd ymarferol i ddod a'r cyfrif Ewro ar y ledjer a'r gyfradd cyfnewid i ddefnyddio i'r pwrpas hwn.
Rhifau Aelodaeth	
Argymhelliad	Argymhellir fod y Rheolwr Pensiwn yn datblygu adroddiad Altair sy'n gallu cyfrif cyfanswm (ac adnabod unigolion) y newidiadau ôl-weithredol i ddata aelodaeth. Yn ychwanegol, argymhellir fod y Gweinyddwr Bas Data Pensiwn yn rhedeg darn o'r data Aelodaeth ar neu mor agos at 31 Mawrth â phosib. Argymhellir hefyd fod Rheolwr y Gronfa Bensiwn yn cynnal cysoniad rhwng rhifau aelodaeth adroddiad cyn y flwyddyn a diwygio nifer aelodaeth.
Blaenoriaeth	Canolig
Canfyddiad 2015-16	Nodwyd na fedrai'r Rheolwr Pensiwn ddarparu cysoniad rhif aelodaeth rhwng 2014-15 a 2015-16. Dylai'r cysoniad ddangos symudiadau aelodau yn y flwyddyn ariannol a newidiadau ôl-weithredol a ddiwygiodd unrhyw ffigyrau cyn y flwyddyn. Byddai'r cysoniad hwn yn caniatáu i ni archwilio symudiad rhifau aelodau, nad ydym wedi gallu eu gwneud.

Atodiad 3

Ymateb y rheolwyr	<p>Datblygir adroddiad Altair i gynhyrchu'r symudiadau mewn aelodaeth rhwng dau ddyddiad penodol. Byddai hyn yn galluogi cysoni.</p> <p>Ni fydd rhedeg darn o ddata aelodaeth yn agos at 31 Mawrth yn datrys y broblem gan fod data Mawrth yn cael ei gofnodi yn ystod Ebrill pan gaiff ei dderbyn gan y cyflogwyr.</p>
Canfyddiad 2016-17	<p>Fe wnaethom nodi na allai'r Rheolwr Pensiwn ddarparu cysoni rhif aelodaeth rhwng 2015-16 a 2016-17.</p> <p>Dylai'r cysoni dangos symudiadau aelodau yn y flwyddyn ariannol a newidiadau ôl-weithredol a ddiwygiwyd unrhyw ffigurau blwyddyn flaenorol. Byddai'r cysoni hwn yn ein galluogi i archwilio symudiad o rifau aelodau, nad ydym wedi gallu eu gwneud.</p>
Statws	Ail-godi'r argymhelliad
Ymateb y rheolwyr	<p>Mae adroddiadau o'r system bensiynau (Altair) wedi eu cynhyrchu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar gael ac wedi cael eu cyflwyno i'r Archwylwyr yn ôl y gofyn. Mae yr adroddiadau hyn yn dangos ffigurau ar gyfer yr holl gofnodion a ddelir ar y system ar unrhyw adeg a'r nifer sydd yn disgyn i'r gwahanol fathau o statws e.e. aelod gweithredol, aelod gohiriedig neu bensiynwr a.y.y.b. Mae adroddiadau eraill yn dangos y symudiadau a fu rhwng gwahanol statws rhwng dau ddyddiad arbennig. Fodd bynnag dylir nodi nad yw data ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol (y 31ain o Fawrth) ddim yn cael ei dderbyn yn syth (gall gymryd nifer sylweddol o wythnosau i dderbyn data gan gyflogwyr) , ac felly, mae cyflwr y data a dynnir oddi ar y system ar ddyddiad arbennig yn gallu bod yn anghywir o'i gymharu a'r gwir sefyllfa.</p> <p>Rhaid nodi fod y system bensiynau yn system sydd yn cael ei defnyddio yn gyson ac yn newid o eiliad i eiliad gyda chofnodion yn cael eu creu, addasu a'u dileu bob dydd wrth i aelodau o staff yr uned ymateb i wybodaeth newydd a dderbynnir gan y cyflogwyr ac wrth brosesu buddion pensiwn aelodau. Tybir y byddai yn anodd neu amhosibl storio tystiolaeth ar wahan i'r dogfennau a ddelir ar gofnodion unigol yr aelod i ddangos pam er engraifft y bu i nifer y cofnodion pensiwn godi neu ddisgyn rhwng dau ddyddiad.</p> <p>Mae cais wedi ei wneud i'r cyflogwyr iddynt gyflwyno gwybodaeth i'r Uned Bensiynau trwy ddefnyddio y system "I-Connect" sydd yn hwyluso y broses o drosglwyddo data yn gywir a rheoliadd bob mis rhwng y cyflogwr a'r system bensiynau Altair. Credir y gallai mabwysiadu y dull hwn o drosglwyddo data wella yn sylweddol cywirdeb y data a ddelir a gwella effeithlonrwydd gweinyddiaeth y cynllun pensiwn.</p>

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Eitem 7

PWYLLGOR:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	29 MEDI 2017
TEITL:	RHEOLAETH TRYSORLYS 2017/18 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN
PWRPAS:	Mae Côt Ymarfer CIPFA yn argymhell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.
ARGYMHELLIAD:	DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH
AWDUR:	DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

1. CEFNDIR

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol bod cyngorau yn adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn). Mae'r adroddiad hon yn darparu diweddariad canol blwyddyn.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2017/18 gan y Cyngor llawn ar 2 Mawrth 2017, a gellir ei weld ar y we yn

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=1657&ver=4&>

Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i'r strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gweithgaredd y trysorlys a'r monitro risg a rheolaeth risg cysylltiedig.

2. Y CYD-DESTUN ALLANOL

Roedd mynegai Chwyddiant Pris Defnyddiwr DU (CPI) yn codi dros y chwarter cyntaf 2017/18 ac roedd y data ar gyfer mis Mai yn dangos CPI ar 2.9%, y lefel uchaf ers Mehefin 2013. Roedd effaith y disgyn mewn prisiau tannwyd wedi gosod yn erbyn y codiadau yn nifer o'r categorïau eraill yn y 'fasged' CPI tra bod y gostyngiad mewn sterling yn dilyn canlyniad y refferendwm Mehefin 2016 yn dal i fwydo trwodd i brisiau mewnforio uwch.

Roedd Prif Weinidog Theresa May wedi galw Etholiad Cyffredinol annisgwyl yn fis Mehefin, er mwyn datrys ansicrwydd a gyda'r gobaith ennill mandad gwell wrth

ddechrau'r drafodaeth Brexit ar ddod. Mae'r canlyniad annisgwyl wedi arwain at lywodraeth Geidwadol leiafrifol mewn trefniant gyda'r Democratic Unionist Party. Mae'r cyfyngder gwleidyddol hwn yn golygu ansicrwydd gwleidyddol lefel uwch, beth bynnag mae'r potensial ar gyfer 'hard Brexit' yn llai, sydd yn lleihau'r problemau economaidd cysylltiedig ar gyfer economi'r DU yn dilyn 'dim del' neu gytundeb masnach anffafriol.

Mae'r ymateb gan y marchnadoedd yn dilyn canlyniad yr Etholiad wedi bod yn eithaf distaw ac mae hyder busnes yn dibynnu ar gynnydd (neu dim) trafodaethau Brexit, os yw cytundebau a threfniadau masnach yn diweddu'n llwyddiannus ac os yw'r DU yn parhau fel rhan o undeb tollau'r UE yn dilyn ymadawiad y wlad o'r UE.

Yn y sefyllfa ansicr yma, mae Arlingclose yn disgwyl bydd y Banc Lloegr edrych trwodd cyfnodau chwyddiant uchel a pharhau gyda'r safiad isel yn hwy ar gyfer polisi cyfraddau llog am gyfnod estynedig.

Roedd rhai newidiadau i'r asesiadau credyd yn ystod y cyfnod. Roedd rhai newidiadau cyfraddau credyd yn ystod y cyfnod. Roedd Moody yn israddio safon tymor hir Standard Chartered Bank i A1 o Aa3 ar y disgwyliad bydd buddioldeb y banc yn is yn dilyn ymdrechion y rheolwyr i dynnu risg oddi wrth ei fantolen. Mae'r asiantaeth hefyd wedi cadarnhau safon tymor hir Royal Bank of Scotland a NatWest ar Baa1.

3. GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

Mae'r Cyngor yn dal buddsoddiadau sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant, ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn.

Mae'r Arweiniad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

Mae'r Cyngor yn dal arian wedi ei buddsoddi sydd yn cynrychioli'r incwm a derbyniwyd o flaen y gwariant yn ogystal â balansau a chronfeydd. Yn ystod y 5 mis, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor yn amrywio rhwng £68.5 a £31.6 miliwn oherwydd gwahaniaethau amser rhwng incwm a gwariant. Dangosir y sefyllfa buddsoddi yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

	31.3.17 Balans £m	5 mis Symudiad £m	31.8.17 Balans £m
Banks & building societies (unsecured)	21.3	(8.1)	13.2
Covered bonds (secured)	2.2	0	2.2
Government (incl. local authorities)	6.0	11.0	17.0
Money Market Funds	0.0	18.2	18.2
Total investments	29.5	21.1	50.6

Diogelwch y cyfalaf sy'n parhau'n brif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi. Cynhaliwyd hyn drwy ddilyn polisi gwrthbartion y Cyngor, sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2017/18.

Aseswyd ansawdd credyd y gwrthbartion a'i fonitro drwy gyfeirio at y statws credyd (isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartion a benwyd gan y Cyngor oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody's); prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol.

Adroddiad Perfformiad

Mae'r Cyngor yn mesur y perfformiad cyllidol gweithgareddau rheolaeth trysorlys ar sail effaith ar y cyllideb refeniw yn erbyn meincnod cyfraddau llog, fel y dangosir yn y tabl isod.

Dyddiad	Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd	Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd	Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd	Cyfartaledd Amser – Statws Credyd
31/03/17	4.22	AA-	3.27	AA
30/06/17	4.07	AA-	3.30	AA

Sgorio:

- Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes.

- Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.

-AAA = ansawdd credyd uchaf = 1

-D = ansawdd credyd isaf = 26

Y nod = A- neu statws credyd uwch, gyda sgôr o 7 neu'n is, i adlewyrchu'r dull buddsoddi presennol gyda'r prif ffocws ar ddiogelwch.

Roedd buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnwys cyfrifon ar alw, adneuron cyfnod cyfradd sefydlog a thystysgrifau adneuron, cronfeydd marchnad wedi'u cyfuno a bondiau gorchuddiedig.

£36.5m oedd y balans cyfartaledd arian yn ystod y pum mis. Roedd cyfradd Banc y DU wedi aros ar 0.25% ers August 2016.

£0.17m yw'r cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar allbwn buddsoddi o 0.5% ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Adroddiad Cydymffurfio

Mae'r Pennaeth Cyllid yn cadarnhau cydymffurfiaeth â'i Ddangosyddion Darbodus am 2017/18, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2017 fel rhan o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei datguddiad at risgiau rheolaeth trysorlys wrth ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

Mae'r Pennaeth Cyllid yn hapus i adrodd bod yr holl weithgareddau rheolaeth trysorlys yn ystod y pum mis at 31 Awst 2017 wedi cydymffurfio yn gyflawn gyda Chod Ymarfer CIPFA a'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a gafodd ei chymeradwyo gan y Cyngor.

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwysu'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

	Target	Actual
Sgôr credyd cyfartal y portffolio	6.0	3.30

Cyfradd Llog: Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chynnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, fel a ganlyn:

	2017/18	2018/19	2019/20
Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog	100%	100%	100%
Gwir			
Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cynnewidiol	50%	50%	50%
Gwir			

Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwyt na 364 diwrnod: Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

	2017/18	2018/19	2019/20
Limit on principal invested beyond year end	£40m	£20m	£10m
Actual	£2.18m	£2.18m	£2.18m

7. Hyfforddiant Buddsoddi

Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA oedd yn berthnasol i'w swyddi.

8. Rhagolygon ar gyfer Gweddill 2017/18

Rhagwelir twf GDP y DU o gwmpas 1.6% ar gyfer 2017 ac 1.4% yn 2018. Bydd gwariant cwsmer darostwng y prif yrrwr i'r cyfnod gyda thyfiant gwan, gyda, efo buddsoddiad busnes llai oherwydd ansicrwydd ynglŷn â Brexit.

Mae achos canolog Arlingclose ar gyfer llwybr y Gyfradd Banc dros y tair blynedd nesaf yn dal ar 0.25%. Mae Arlingclose yn credu bod y chwyddiant uchel yn adlewyrchu'r effaith ar wendid sterling ar fewnforio, ac wrth wynebi olygfa twf gwannach bydd y rhai sydd yn gwneud polisïau yn Fanc Lloegr yn edrych bellach ymlaen. Y llwybr tebygol ar gyfer Cyfradd Banc yw iddo aros yn wastad ar 0.25%. Beth bynnag, mae risg islawr ar gyfer cyfraddau cael eu torri i 0.00% yn y tymor byr a thymor canol, a chwmpas i gyfraddau cael eu codi o 2019 ymlaen, er hynny yn ddiymhongar i 0.50%.

	Sep-17	Dec-17	Mar-18	Jun-18	Sep-18	Dec-18	Mar-19	Jun-19	Sep-19	Dec-19	Mar-20	Jun-20	Sep-20
Official Bank Rate													
Upside risk	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25
Arlingclose Central Case	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25
Downside risk	0.00	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25

Mae Arlingclose yn gredu bod y Llywodraeth a'r Banc Lloegr gyda'r teclynnau a'r parodrwydd i'w defnyddio er mwyn atal unrhyw broblemau ar draws y farchnad sydd yn arwain at feddiannau banc yn syth. Mae'r dull gofalus ar gyfer cyngor credyd yn golygu bod y banciau sydd ar restr gwrthbartion cyfredol y Cyngor gyda digon o fyffer ecwiti er mwyn delio gydag unrhyw broblemau lleol yn y tymor byr.